Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig

Gorffennaf 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8185
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: ruraldev.comm@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig

Gorffennaf 2009

Cynnwys	**Tudalen**
Cyflwyniad a Chefndir	1
Gyrwyr Byd-Eang a'r Sefyllfa Sydd Ohoni	2
Polisïau'r Llywodraeth	11
Materion Allweddol Sy'n Codi o'r Dystiolaeth	18
Gwybodaeth a Chyfathrebu	19
Cyrchu Lleol a Chaffael yn y Sector Cyhoeddus	21
Marchnata a Hybu	25
Heriau'r Dyfodol	29
Atodiad 1 - Crynodeb o'r Argymhellion	30
Atodiad 2 - Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor	31
Atodiad 3 - Rhestr o'r papurau a ddarparwyd i'r Pwyllgor fel sail i'r dystiolaeth lafar	33
Atodiad 4 - Rhestr o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig	35

Aelodau'r Pwyllgor

Alun Davies
(Cadeirydd)
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

Mick Bates
Sir Drefaldwyn
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Rhodri Glyn Thomas
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Plaid Cymru

Brynle Williams
Gogledd Cymru
Plaid Geidwadol Cymru

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Fel Pwyllgor, roeddem yn awyddus i ymchwilio i'r heriau sy'n wynebu'r sector bwyd-amaeth yng Nghymru, gan ei fod yn rhan hanfodol o'r economi wledig ac economi gyffredinol Cymru.

Dygwyd sylw at bwysigrwydd y sector hwn yn ystod yr ymchwiliad hwn, pan aeth Dairy Farmers of Britain i ddwylo'r gweinyddwyr, gan arwain at golli'r gwaith prosesu llaeth mawr olaf yng Nghymru.

Rydym i gyd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyd a natur newidiol cynhyrchu bwyd wrth i dechnoleg a marchnadoedd y byd ddatblygu, sy'n gwneud hwn yn faes arbennig o heriol. Ymhlith rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar gynhyrchu bwyd yng Nghymru, a nodwyd gan y Pwyllgor o'r dechrau, oedd prisiau ynni uchel, ymwybyddiaeth gynyddol y defnyddiwr o faterion amgylcheddol, fel newid yn yr hinsawdd, pryderon ynglŷn â thaith bwyd a'r dirywiad economaidd.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gynnal yr ymchwiliad hwn i ystyried effeithiau posibl y gyrwyr byd-eang cyfredol ar y diwydiant hwn, a ph'un a fanteisiwyd i'r eithaf ar y cyfleoedd i fynd i'r afael â meysydd pryder yn y maes hwn. Roedd y Pwyllgor am ddarganfod beth oedd yr heriau a oedd yn wynebu'r sector, trwy archwilio pob agwedd, o gynhyrchu trwodd i ddefnyddio. Roeddem am ddarganfod p'un a oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol wrth gynorthwyo cynhyrchwyr a phroseswyr i fod yn fwy arloesol, a ph'un a oedd y cymorth grant yn cael ei roi ar waith yn y ffordd orau. Roeddem am ddarganfod p'un a oedd angen gwneud mwy i farchnata a hybu cynnyrch Cymreig, a thrwy hynny ei helpu i ennill rhan well o'r marchnadoedd cartref a thramor a helpu i sicrhau bod cynhyrchwyr yn cael pris teg am eu nwyddau.

Er mwyn inni wneud hyn yn effeithiol, roeddem am glywed oddi wrth y busnesau a'r sefydliadau sy'n chwarae rhan weithredol yn y sector hwn, gan gynnwys ffermwyr, proseswyr, mentrau cydweithredol, marchnadoedd y ffermwyr a'r rheiny sy'n ymwneud â hybu.

Dros y saith mis diwethaf, rydym wedi derbyn tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth amrywiaeth eang o sefydliadau ac wedi cymryd tystiolaeth lafar oddi wrth gynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr a'r rheiny sy'n ymwneud â hybu a marchnata. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor. Mae amrywiaeth eang y dystiolaeth y bu'r Pwyllgor yn ei hystyried yn ystod yr ymchwiliad wedi rhoi sail gadarn inni seilio ein hargymhellion arni.

Alun Davies AC
Cadeirydd, Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Tarddiad yr Ymchwiliad

1.1 Mae bwyd yn ddiwydiant sylweddol yng Nghymru, gan ddarparu bywoliaeth i lawer iawn o drigolion ardaloedd gwledig. Cyfrannodd y sector bwyd yng Nghymru, gan gynnwys gweithgynhyrchu bwyd, ei gyfanwerthu, ei fanwerthu ac arlwyo amhreswyl, tua £3.5 biliwn at Werth Ychwanegol Crynswth y DU yn 2005.

1.2 Nodwyd nifer o heriau sy'n wynebu'r sector bwyd-amaeth yng Nghymru yn *Ffermio ac Amgylchedd Cynaliadwy: Camu Ymlaen at 2020.* Ymhlith y rhain oedd prisiau uchel am ynni, gan ychwanegu at gost cynhyrchu bwyd a phris bwyd; ymwybyddiaeth y defnyddiwr o faterion amgylcheddol a galw'r defnyddiwr am gynhyrchion o ansawdd uchel a chynhyrchion lleol neilltuol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ymgynghoriadau a pholisïau yn y maes hwn, sy'n dangos ymrwymiad i ddatblygu'r sector hwn, roedd y Pwyllgor yn awyddus i gynnal yr ymchwiliad hwn i ystyried p'un a fanteisiwyd i'r eithaf ar y cyfleoedd i fynd i'r afael â'r heriau yn y maes hwn, sy'n rhan mor bwysig o'r economi wledig.

Cylch Gorchwyl

1.3 Cytunodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal ymchwiliad yn edrych ar gynhyrchu a hybu bwyd Cymru ym mis Tachwedd 2008. Dechreuodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn ym mis Ionawr 2009 a gorffenodd gasglu tystiolaeth ym mis Mehefin 2009.

1.4 Nod yr ymchwiliad oedd:

- Archwilio'r heriau sy'n gysylltiedig â sector bwyd-amaeth Cymru (cynhyrchu bwyd, ei brosesu a'i hybu);
- Asesu llwyddiant mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn, gan gynnwys y strategaeth bwyd-amaeth, strategaethau sectoraidd a rôl y bartneriaeth bwyd-amaeth;
- Archwilio p'un a fydd cynlluniau'r dyfodol yn helpu'r sector bwyd i ymateb i heriau a chyfleoedd y dyfodol.

1.5 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth y sector bwyd drwyddo draw, gan glywed oddi wrth gynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr, y rheiny sy'n ymwneud â labelu a marchnata, caffaelwyr a hybwyr.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r prif faterion a godwyd gan y dystiolaeth. Mae'n ystyried materion yn ymwneud â'r gadwyn fwyd, gan gynnwys gwybodaeth a chyfathrebu; cyrchu lleol, y gadwyn gyflenwi a chaffael; a marchnata a hybu. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r gyrwyr byd-eang a'u heffaith, a pholisi'r llywodraeth.

1.7 Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion i geisio sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael yn y maes hwn.

GYRWYR BYD-EANG A'R SEFYLLFA SYDD OHONI

2.1 Mae'r bennod hon yn nodi rhai o'r gyrwyr arwyddocaol sy'n wynebu diwydiannau'r sector bwyd-amaeth yn fyd-eang, ac yn nodi sut mae rhai o'r materion yn effeithio ar Gymru. Mae'r bennod hefyd yn dwyn sylw at faterion a nodwyd gan y pwyllgor fel rhan o'i sesiwn dystiolaeth gyntaf i ddarganfod y sefyllfa sydd ohoni a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2009.

Gyrwyr/Heriau Byd-eang

2.2 Mae cyflenwad bwyd byd-eang wedi dod yn fater o bryder difrifol i'r cyhoedd ac i wleidyddion yn y blynyddoedd diweddar, yn enwedig o ystyried y cynnydd a welwyd ym mhrisiau bwyd y byd yn ystod 2008. Arweiniodd y cynnydd mewn prisiau nwyddau amaethyddol at gynnydd yn y prisiau i'r defnyddiwr ledled y byd, a chyrhaeddodd chwyddiant prisiau bwyd (Mynegai Prisiau Manwerthu) ei lefel uchaf ar 12.8 y cant yn y DU yn ystod mis Awst 2008.[1] Roedd pris gwenith wedi dyblu yn ystod mis Mawrth 2008, o'i gymharu â mis Mawrth 2007.[2]

2.3 Dadl llawer o bobl yw fod cyfres o ffactorau tymor hir yn dylanwadu ar brisiau bwyd a'r effeithiau ar gyflenwad bwyd byd-eang. Gall effaith y ffactorau hynny ar y cyd roi pwysau ar y marchnadoedd bwyd gan eu gwneud yn fwy ansefydlog. Mae 'gyrwyr' yn enw arall ar y ffactorau hyn. Gall y gyrwyr effeithio ar systemau bwyd byd-eang mewn gwahanol ffyrdd ac nid ydynt o reidrwydd yn cyflenwi ei gilydd o ran yr heriau a'r cyfleoedd y maent yn eu cyflwyno. Fodd bynnag, dylid cydnabod y gallai'r gyrwyr hyn ddarparu cyfleoedd ar gyfer ail-leoli Cymru a'r bwyd lleol y mae'n ei gynhyrchu a'i hybu, ac mae'n bwysig ystyried sut gallwn fanteisio i'r eithaf arnynt.

2.4 Yn sesiwn dystiolaeth yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i ddarganfod y sefyllfa sydd ohoni, cyfeiriodd yr Athro Marsden at yr effeithiau y mae'r gyrwyr hyn yn eu cael:

> "I think that the importance of these wider pressures is that they are going to structure the nature of markets and the types of competition in markets quite significantly."[3]

2.5 Ymhlith rhai o'r gyrwyr allweddol hyn mae polisi bwyd amaethyddol, llafur, newid yn yr hinsawdd, defnydd tir, rheoli dŵr, prisiau ynni, twf y boblogaeth a'r trawsnewid o ran maeth. Mae gweddill yr adran hon yn trafod pob un o'r wyth gyrrwr allweddol hyn yn fanylach.

Polisi Bwyd Amaethyddol

2.6 Mae polisi bwyd amaethyddol yn chwarae rhan sylfaenol wrth ddylanwadu ar systemau bwyd byd-eang. Fel rhan o'r ymchwiliad i fwyd, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth yr Athro Marsden a wnaeth sylwadau ar yr:

---

[1] Swyddfa Ystadegau Gwladol, First Release-Consumer Price Indices for August 2008, 16 Medi 2008 tudalen 18
[2] Ystadegau Gwladol a Defra, Food Statistics Pocket book 2008, tudalen 35
[3] Cofnod y Trafodion, t5, 15 Ionawr 2009, yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

> "Increasing volatility in markets, which suggest that we are moving away from the old Common Agricultural Policy system as the guarantor of good-quality food."[4]

2.7 Gwnaeth sylw hefyd ar yr angen i:

> […] "recast relationships with the UK and, in particular, EU policy levels with regard to competition and trade. […] These are important issues. Somehow, agri-food, rather than just agriculture needs to be part of that."[5]

2.8 System o raglenni a chymorthdaliadau amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), ac mae'n costio tua 55 biliwn Ewro y flwyddyn.[6] Mae'r diwygio diweddaraf yn y PAC wedi gweld y ffocws yn symud tuag at gael gwared ar y cysylltiad rhwng cymorthdaliadau amaethyddol a chyfaint y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu (neu ddatgysylltu i roi enw arall arno).[7] Dan y system bresennol, disgwylir i ffermwyr gadw'u tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GEAC) er mwyn derbyn arian oddi wrth y Cynllun Taliad Sengl, ac mae pwyslais hefyd ar ffermwyr yn parchu safonau lles anifeiliaid, diogelwch bwyd a'r amgylchedd. [8]

2.9 Er mai nod system PAC yw bod wedi'i halinio â'r marchnadoedd, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth, fel rhan o'i ymchwiliad i fwyd, a oedd yn awgrymu nad yw cymorthdaliadau fferm cyfredol yn cael eu targedu'n llwyr effeithiol o hyd. Gwnaeth y Ganolfan Datblygu Llaeth y sylw:

> […] "the subsidy that goes into agriculture in Wales at the moment far exceeds the profitability of our agriculture. That subsidy through the single farm payments and the Tir schemes do not encourage more production. […] our schemes are encouraging farmers that the less they farm, the more profitable they will be at the end of the day."[9]

2.10 Yn ddiweddar, cwblhaodd Comisiwn yr UE ei 'Wiriad Iechyd y PAC' fel adolygiad o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Daethpwyd i gytundeb UE ar Wiriad Iechyd y PAC ar 20 Tachwedd 2008. Ymhlith rhai o'r newidiadau mae datgysylltu taliadau fferm ymhellach, lleihau biwrocratiaeth i ffermwyr (o ran gwiriadau trawsgydymffurfio) a chanolbwyntio mwy ar sicrhau bod ariannu'n targedu cynlluniau amgylcheddol a datblygu gwledig. [10]

2.11 Nid yw'r Gwiriad Iechyd ei hun wedi rhoi unrhyw ddiwygio mawr ar waith, ond mae'n debygol y bydd diwygiadau sylweddol yn y tymor hir i amaethyddiaeth. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, sef *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad - Creu Dyfodol Cadarn* yn cydnabod y gall diwygio PAC yn y dyfodol o bosibl arwain at leihau swm y cymorth ar gyfer cynhyrchu bwyd yn yr UE, gan symud i ffwrdd o daliadau uniongyrchol dan Biler 1 i ffermwyr sy'n cynyddu eu gweithgarwch dan gymhelliannau datblygu gwledig Piler 2.[11]

---

[4] Ibid, page 8
[5] Cofnod y Trafodion, t6, 15 Ionawr 2009, yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
[6] Datblygu Gwledig ac Amaeth y Comisiwn Ewropeaidd, The Common Agricultural Policy Explained
[7] Ibid, tudalen 7
[8] http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/cap/glossary/?lang=cy
[9] Cofnod y Trafodion, t20, 15 Ionawr 2009, yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
[10] http://www.defra.gov.uk/farm/policy/capreform/index.htm
[11] Ibid, tudalen 6

2.12 Er y rhagwelir y byddai unrhyw ddiwygio i'r PAC yn ysgogi llywodraethau i roi mwy o bwyslais ar fesurau amaeth-amgylcheddol er budd yr amgylchedd, ni fydd y trawsnewid i hyn heb ei anawsterau. Bydd gofyn i holl ffermwyr yr UE ddod yn llai dibynnol ar gymorth y PAC ac addasu eu systemau cynhyrchu i gystadlu'n effeithiol yn y farchnad fyd-eang, ac ar yr un pryd sicrhau eu bod yn defnyddio'r mesurau datblygu gwledig sydd â chanolbwynt amgylcheddol gynaliadwy.

2.13 Yn ôl *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn*, bydd 80 y cant o gyllideb Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru'n cael ei ddefnyddio ar gyfer rheoli tir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol a luniwyd i gyfoethogi'r amgylchedd.[12] Bydd unrhyw ddiwygio i'r PAC yn debygol o roi mwy o bwyslais ar nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol; felly mae yma gyfle i ffermwyr Cymru baratoi ar gyfer unrhyw ostyngiad mewn cymorth ariannol y PAC trwy ddatblygu dull o ffermio mwy amgylcheddol gynaliadwy.

2.14 Mae polisi bwyd amaethyddol hefyd yn chwarae rôl sylweddol wrth osod safonau ar gyfer ansawdd a diogelwch y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu. Yn sesiwn y Pwyllgor i ddarganfod y sefyllfa sydd ohoni, gwnaeth yr Athro Marsden y sylw:

> […] "the food system is now seen as a part deliverer of the public health agenda, and that is going to affect markets."[13]

2.15 Gwnaeth sylw hefyd ar Adroddiad Pennington (ymchwiliad i E coli), ac ar y sylw rhyngwladol y bydd yn ei ddenu i ansawdd bwyd Cymru.[14]

2.16 O ganlyniad i reoliadau a pholisïau amaethyddol, mae ansawdd bwyd a safonau diogelwch yn uchel yn y DU. O ganlyniad i globaleiddio, mae cystadleuaeth fwyfwy o du marchnadoedd ledled y byd, sydd â chostau cynhyrchu is, yn wynebu ffermwyr Cymru a ffermwyr gweddill y DU. Clywodd ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig hefyd dystiolaeth a oedd yn awgrymu nad oedd holl gynhyrchion bwyd tramor yn bodloni'r un safonau uchel ag y mae disgwyl i gynhyrchwyr Prydain eu bodloni.[15] Gallai hyn osod heriau gwirioneddol i'r diwydiant bwyd o ran iechyd a lles anifeiliaid yn ogystal â diogelwch bwyd yn gyffredinol. I leddfu'r effeithiau hyn, mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar globaleiddio'n dwyn sylw at y ffaith fod gan Gymru'r cyfle i ddiogelu buddiannau ei chynhyrchwyr sydd â chostau uwch yn erbyn y cystadleuwyr eraill yn yr economi fyd-eang sydd â chostau is trwy hybu cynhyrchion bwyd fel cynhyrchion benodol Gymreig.[16]

Llafur

2.17 Mae symudiadau llafur a phoblogaeth yn yrrwr allweddol sy'n effeithio ar y system fwyd fyd-eang. Ledled y byd, mae yna fwy a mwy o symudiadau poblogaeth o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol, gan arwain at fwyta deietau mwy amrywiol ac arwain at alw amdanynt.

---

[12] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn, Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant, Mai 2009, tudalen 17
[13] Cofnod y Trafodion, t5, 15 Ionawr 2009, yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
[14] Cofnod y Trafodion, t9, 15 Ionawr 2009, yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
[15] Pwyllgor Materion Cymreig, Globalisation and its impacts, 12 February 2009, HC184-1, 2008-09, para 114
[16] Ibid, para 123

2.18 Rhy hyn her i lafurlu fferm sy'n crebachu i gynhyrchu digon o fwyd i ddiwallu'r galw. O ran Cymru, clywodd ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i globaleiddio dystiolaeth sy'n awgrymu bod y diwydiant ffermio dan bwysau cynyddol o ganlyniad i nifer y bobl ifanc sy'n gadael busnesau fferm.[17] Yn ôl arolwg Strwythur Ffermydd yr UE (2003), 57 oedd cyfartaledd oedran ffermwyr ar gyfer yr holl ddaliadau.[18]

2.19 Mae tystiolaeth a glywyd fel rhan o ymchwiliad yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig i fwyd yn cefnogi hyn, lle rhybuddiodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru yn erbyn effeithiau llafurlu fferm sy'n crebachu:

> "If, over the next 10 years, young farmers move away from the industry as they have over the last 30 or 40 years, our ability to produce food in Wales will be severely hampered. [...] we will see a real erosion of our production ability."[19]

2.20 Bu incymau fferm isel ac elw sydd ar drai'n duedd tymor hir i ffermwyr Cymru. Mae incymau fferm ar gyfer da byw sy'n pori yn yr iseldir a ffermydd Ardaloedd Llai Ffafriol[20] yn parhau i fod ag incymau sy'n is na'r cyfartaledd, yn achos pob math o ffermydd.[21] Gellir priodoli'r gostyngiad mewn incymau fferm yng Nghymru'n rhannol i gostau cynhyrchu uwch sy'n gysylltiedig â phorthiant anifeiliaid, gwrtaith ac ynni.[22] Mae taliadau cymorthdaliadau fferm trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn gyfraniad o bwys i incymau fferm.

2.21 Clywodd y Pwyllgor Materion Cymreig hefyd dystiolaeth yn awgrymu bod yna brinder sgiliau'n gyffredinol yng Nghymru yn y diwydiant bwyd drwyddo draw, o gynhyrchu i werthu.[23]

Newid yn yr Hinsawdd

2.22 Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn uchel ar yr agenda ledled y byd. Yn ôl Adroddiad Chatham House, sef *Food Futures- Rethinking UK Strategy*[24], ystyrir bod newid yn yr hinsawdd yn:

> An important additional stress on agricultural production systems already affected by high demand and degradation.[25]

2.23 Mae newid yn yr hinsawdd yn creu digwyddiadau tywydd aflonyddol a thrychinebau naturiol sy'n cael effeithiau niweidiol ar gynhyrchu bwyd amaethyddol. O ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, rhagwelir y bydd amodau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach ac yn difrodi cnydau ac yn gwneud tir fferm yn annichonadwy.[26]

---

[17] Ibid, para 113
[18] Defra, EC Farm Structure Survey-Focus on: Holders in the UK, October 2005, tabl 4, tudalen 9
[19] Cofnod y Trafodion, t14, 15 Ionawr 2009, yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
[20] Ystyr ardaloedd llai ffafriol yw tir sydd wedi'i leoli ac sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr o ardaloedd ffermio llai ffafriol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd dan Erthygl 2 Cyfarwyddeb y Cyngor Rhif 75/268/EEC ar ffermio mynydd a bryniau mewn ardaloedd llai ffafriol ac, yn y DU, rhennir Ardaloedd Llai Ffafriol yn Ardaloedd dan Anfantais Fawr (yn binc ar y map dynodedig) ac Ardaloedd dan Anfantais (yn las ar y map).
[21] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Farming Food and Countryside , Building a Secure Future, Annex 1: Industry Challenges, May 2009, page 15
[22] Ibid tudalen 15
[23] Y Pwyllgor Materion Cymreig, Globalisation and its impacts, 12 Chwefror 2009, HC184-1, 2008-09, tudalen 59, para 157
[24] Chatham House, Food Futures: Rethinking UK Strategy, Chwefror 2009
[25] Ibid, tudalen 17
[26] Ibid, tudalen 17

2.24 Mae newid yn yr hinsawdd hefyd wedi'i gysylltu â pharhad lledaenu clefydau cnydau ac anifeiliaid yn gyflym ac amrywiadau mewn tymheredd a gwlybaniaeth.[27] Gall clefydau anifeiliaid hefyd fod â goblygiadau yn y tymor hir i broffil ac enw da cynhyrchion bwyd, sef rhywbeth a welwyd yn ystod achosion blaenorol o glefydau anifeiliaid yn y DU ac yng Nghymru, fel Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol a'r Tafod Glas.

2.25 Mae Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU (UKCIP) yn rhagweld y bydd tymereddau yng Nghymru'n codi ar gyfartaledd o rhwng 1 a 3 gradd canradd erbyn 2080.[28] Yn ôl *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn*, mae'n bosibl y bydd hyn yn cyflwyno cyfleoedd i ffermwyr y DU ar ffurf tymhorau tyfu hwy.[29] Nid allyriadau carbon deuocsid yw'r unig nwy tŷ gwydr sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Mae rhai gweithgareddau amaethyddol penodol hefyd yn gollwng allyriadau eraill, nad ydynt yn garbon deuocsid, fel methan o dda byw ac ocsid nitrus o wrteithiau, sydd hefyd yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.[30] Bydd hyn yn cyflwyno cryn her i ffermwyr yng Nghymru, lle mai da byw a defaid yw'r sectorau mwyaf sylweddol.

2.26 Mae gan ffermio a rheoli tir yng Nghymru rôl bwysig i'w chwarae wrth gynnal a chynyddu'r carbon sy'n cael ei storio mewn priddoedd. Yng Nghymru, mae 400 miliwn tunnell o garbon yn cael ei storio yn yr ucheldiroedd.[31] Mae'r stôr hwn o garbon wedi cynyddu dros amser oherwydd amodau dwrlawn mewn ardaloedd ucheldirol. Y bygythiad o ran newid yn yr hinsawdd yw y gallai hinsawdd gynhesach a sychach yng Nghymru achosi i'r ucheldiroedd hyn sychu, gan ryddhau carbon i'r atmosffer.[32] Yn ôl *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn*, pe byddai cymaint â 3 y cant o garbon yn cael ei ryddhau o briddoedd ucheldiroedd Cymru, gallai hyn i bob pwrpas ddyblu allyriadau carbon deuocsid Cymru.[33]

2.27 Dros amser, rhagwelir y bydd y bwyd a fydd yn cael ei gynhyrchu'n debygol o leihau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, a bydd hynny'n cael effaith chwyddiannol ar brisiau bwyd ledled y byd. Dengys ffigyrau sy'n cael eu dyfynnu yn adroddiad Sefydliad Rhyngwladol Ymchwil Polisi Bwyd ar *Bolisi Bwyd* y bydd allbynnau CMC amaethyddol yn debygol o leihau o 16 y cant erbyn 2020 o ganlyniad i gynhesu byd-eang yn y byd datblygedig, gyda dirywiad mwy difrifol o 20 y cant mewn gwledydd datblygol.[34]

2.28 Bydd symudiadau rhagweledig o'r fath o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn herio ffermwyr i ddod yn fwy hyblyg ac addasu eu dull o ffermio i reoli effeithiau newid yn yr hinsawdd yn well. Fel rhan o'r ymchwiliad i fwyd, clywodd yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig dystiolaeth oddi wrth yr Athro Marsden a ddywedodd:

---

[27] Ibid, tudalen 17
[28] Briff Cyfeillion y Ddaear i'r Cyfryngau, Climate Change Impacts, Mai 2005 tudalen 7
[28] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Farming Food and Countryside - Building a Secure Future, Annex 1: Industry Challenges, Mai 2009, tudalen 8
[29]
[30] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Farming Food and Countryside - Building a Secure Future, Annex 1: Industry Challenges, May 2009, page 8
[31] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn, Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant, Mai 2009, tudalen 9
[32] Ibid, tudalen 9
[33] Ibid, tudalen 9
[34] Adroddiad Sefydliad Rhyngwladol Ymchwil Polisi Bwyd ar Bolisi Bwyd, The World Situation: New Driving Forces and Required Actions, 2008 tudalen 3

> "We must try to develop this notion of farms not just as diversified entities, but as deliverers of sets of ecological goods and services."

2.29 Bydd yn rhaid i ffermwyr fabwysiadu gwell arferion ffermio a rheoli tir.[35]

Defnydd tir

2.30 Yng Nghymru, crebachodd cyfanswm y tir amaethyddol sy'n cael ei ddefnyddio o 1,680,000 hectar ym 1997 i 1,640,000 hectar yn 2007.[36] Yn benodol, bu crebachu o ran defnyddio tir ar gyfer porfa arw a thir âr. Er enghraifft, crebachodd y defnydd o dir âr o 227,000 hectar ym 1997 i 162,000 hectar yn 2007.[37] Gwelwyd hefyd grebachiad tebyg mewn porfa arw, o 479,000 hectar ym 1997 i 390,000 hectar ym 2007.[38]

2.31 Mae mwyafrif tir amaethyddol cynhyrchiol y byd eisoes yn cael ei ddefnyddio, ac mae dadansoddwyr yn rhagweld mai ychydig yn unig o ehangiad fydd i ardal y tir âr a fydd ar gael i'w ddefnyddio yn y dyfodol.[39] Golyga hyn y byddai angen i unrhyw gynnydd mewn cynhyrchiant bwyd yn y dyfodol fod wedi'i seilio ar gynhyrchiant uwch fesul hectar o dir a fydd ar gael.[40] Fodd bynnag, mae adroddiad Chatham House yn datgan bod y twf yn y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu fesul hectar ar drai i bob golwg. Mae hyn yn creu heriau go iawn o ran diogelwch bwyd yn y tymor hir, ac yn gofyn cwestiynau ynghylch gallu cyflenwadau bwyd i fodloni galwadau cynyddol. Wrth i boblogaethau barhau i gynyddu ac wrth i dir gael ei wthio i'w eithaf, bydd materion fel defnyddio adnoddau ac ôl troed amgylcheddol yn dod yn bryder cynyddol.[41]

Rheoli dŵr

2.32 Mae'r pwysau byd-eang ar y cyflenwad dŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio gan bobl yn dod yn broblem sy'n fythol gynyddu. Mae maint y fasnach fyd-eang mewn dŵr rhithwir (wedi'i ymgorffori mewn bwyd) yn fwy nag 800 biliwn metr ciwbig y flwyddyn, sydd gyfwerth â Deg Afon Nîl.[42] Mewn tystiolaeth a gymerwyd fel rhan o ymchwiliad yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig i fwyd, gwnaeth yr Athro Marsden sylw ar ddefnyddio dŵr mewn bwyd:

> […] "there is the whole question of sustainable systems, not least how we reduce waste and the exorbitant amount of water- what some people call 'virtual water'-that is in our foods. […] Globally, agriculture takes up 70 per cent of fresh water supplies, so water, as well as carbon, is going to be an important aspect of structuring the nature of competition."[43]

[35] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn, Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant, Mai 2009, tudalen 8
[36] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Farming Facts and Figures 2008, 2008, tudalen 3
[37] Ibid, tudalen 3
[38] Ibid, tudalen 3
[39] Chatham House, Food Futures: Rethinking UK Strategy, Chwefror 2009 tudalen 15
[40] Ibid, tudalen 15
[41] Chatham House, Food Futures: Rethinking UK Strategy, Chwefror 2009, tudalen 16
[42] Ibid, tudalen 16
[43] Cofnod y Trafodion, t5-6, 15 Ionawr 2009, yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

2.33 Mae adroddiad Chatham House yn rhybuddio y gallai defnyddio dŵr yn y fath fodd achosi niwed amgylcheddol a chymdeithasol mewn gwledydd lle mae prinder dŵr eisoes yn broblem. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at y defnydd o systemau dyfrhau ar dir amaethyddol fel strategaeth graidd wrth fwydo poblogaeth y byd sy'n cynyddu, ond mae'n dwyn sylw at faterion lle nad yw rhai gwledydd yn cyrchu nac yn rheoli dŵr mewn modd cynaliadwy.[44]

2.34 Ffactor arall sy'n cyflwyno her sylweddol i gynhyrchu bwyd yn y dyfodol yw prinder dŵr sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Bydd y ffactorau hyn yn herio gwledydd i gyrchu eu cyflenwadau dŵr mewn modd mwy cynaliadwy ac i reoli eu dŵr ar gyfer amaethyddiaeth yn fwy effeithlon.

Prisiau Ynni

2.35 Mae prisiau ynni'n yrrwr allweddol systemau bwyd byd-eang. Mae prisiau ynni hefyd yn cael effaith sylweddol ar bris bwyd. Er bod prisiau ynni bob amser wedi bod yn ansefydlog, mae'r degawd diwethaf wedi gweld cynnydd sydyn ym mhris olew, nwy a thrydan. Gweithgarwch sy'n ddefnyddio ynni'n gymharol drwm yw cynhyrchu amaethyddol, gan fod angen ynni i weithredu peiriannau amaethyddol, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n anuniongyrchol i gynhyrchu gwrtaith. Prisiau gwrtaith yw cyfran fwyfwy o'r prif gostau cynhyrchu amaethyddol mewn gwledydd datblygol. [45] Mae adroddiad Banc y Byd ar Ddatblygiad Amaethyddol yn rhybuddio:

> Sharply higher fertilizer prices could have far-reaching effects on developing country agriculture-pushing down fertilizer application rates and crop yields and raising food prices.[46]

2.36 Dywed adroddiad Chatham House ei bod yn debygol y bydd costau mewnbwn ynni i amaethyddiaeth a busnesau bwyd yn aros yn uchel ac y bydd prisiau'n cynyddu'n barhaus yn y dyfodol.[47]

2.37 Mae prisiau bwyd hefyd wedi'u halinio'n agos â phrisiau ynni oherwydd costau cludiant/trafnidiaeth. Mae costau trafnidiaeth cynyddol wedi cael effaith amlwg ar batrymau masnach. Yn ôl Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO) y Cenhedloedd Unedig:

> […] "many countries opt to source their import purchases from nearer suppliers to save on transport costs. In many instances, this development has also sparked a noticeable reduction in the degree of world market integration with prices at regional or localized levels falling out of line with world levels".[48]

2.38 Mae adroddiad Banc y Byd ar amaethyddiaeth dros ddatblygiad yn awgrymu mai un effaith costau trafnidiaeth fydd, o bosibl, cynyddu diddordeb mewn cyrchu bwyd yn lleol ac mewn marchnadoedd bwyd lleol yn y gwledydd datblygedig, gan ganolbwyntio ar leihau taith bwyd.[49]

---

[44] Chatham House, Food Futures: Rethinking UK Strategy, Chwefror 2009 tudalen 17
[45] Banc y Byd, Adroddiad Datblygiad y Byd, Agriculture for Development, 2008, tudalen 66
[46] Ibid, tudalen 66
[47] Chatham House, Food Futures: Rethinking UK Strategy, Chwefror 2009 tudalen 13
[48] FAO, Food Outlook: Special Features, Tachwedd 2007 cyrchwyd ar 04 Mehefin 2009
[49] Banc y Byd, Adroddiad Datblygiad y Byd, Agriculture for Development, 2008, tudalen 66

Twf y boblogaeth a diogelwch bwyd

2.39 Er 2000, mae lefelau stociau cnydau byd-eang wedi bod ar drai yn gyson, yn rhannol oherwydd stociau llai yn Tsieina.[50] Amcangyfrifir bod y stoc gwenith byd-eang yn 2007/08 yn 59 y cant o'i lefel yn 2000.[51] Gall bod â stociau mor isel â hyn wneud y marchnadoedd yn fwy sensitif i dangyflenwad, sy'n gallu gyrru prisiau bwyd i fyny. Gwnaeth John Beddington, Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU, y sylw:

> "We are going to have to expect to have-throughout the world and not just in the UK-higher food prices"[52]

2.40 Yn ei sylwadau, mae'n priodoli'r cynnydd mewn prisiau bwyd yn bennaf i dwf y boblogaeth ac mae o'r farn y bydd hyn yn gwrthbwyso unrhyw ostyngiad mewn prisiau bwyd.[53]

2.41 Mae adroddiad Chatham House yn nodi mai effaith y cynnydd ym mhoblogaeth y byd yn y tymor hir fydd mwy o alw am fwyd, a dywed ei bod yn bosibl y bydd angen i'r byd fwydo mwy na naw biliwn o bobl erbyn 2050.[54] Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, erbyn 2050, bydd 86 y cant o boblogaeth y byd yn byw mewn rhanbarthau llai datblygedig.[55]

2.42 Daw heriau a chyfleoedd i'r sectorau bwyd-amaeth yng Nghymru yn sgil twf yn y boblogaeth ac effaith y twf hwn ar brisiau bwyd, costau cynhyrchu a diogelwch bwyd yn gyffredinol. Yn ôl *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn*, mae'n debygol y bydd ffermwyr Cymru mewn sefyllfa dda i gynyddu'u cynhyrchiant o gynnyrch cig a llaeth.[56] Mae'r adroddiad yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd tuedd lle ceir ansefydlogrwydd o ran prisiau bwyd ac y gallai hyn gyflwyno heriau i sectorau pennaf Cymru, sef da byw a llaeth, o ganlyniad i unrhyw gynnydd yng nghost porthiant anifeiliaid.[57] Er mwyn mynd i'r afael â'r her bosibl hon, mae'r adroddiad yn dadlau y bydd angen i systemau cynhyrchu ffermwyr Cymru ddod yn fwy effeithlon yn dechnegol, trwy ddefnyddio porthiant i'r eithaf, sicrhau bod costau mor isel â phosibl a gwarchod yr amgylchedd, gan arwain at bwyslais ar ffermio cymysg, gyda ffermwyr da byw yn cynhyrchu eu porthiant anifeiliaid eu hunain.[58]

---

[50] Ystadegau Gwladol a Defra, Food Statistics Pocket book 2008, tudalen 36
[51] Ibid, tudalen 36
[52] Datganiad i'r wasg y Telegraph, High food prices here for the next decade, 07 Medi 2008
[53] Ibid
[54] Chatham House, Food Futures: Rethinking UK Strategy, Chwefror 2009 tudalen 11
[55] Y Cenhedloedd Unedig, Is-adran Poblogaeth Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol Ysgrifenyddiaeth y Cenhedloedd Unedig, World Population Prospects: The 2006 highlights, 2007 tudalen 1
[56] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn, Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant, Mai 2009, tudalen 4
[57] Chatham House, Food Futures: Rethinking UK Strategy, Chwefror 2009 tudalen 12
[58] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn, Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant*, Mai 2009, tudalen 5

Trawsnewid o ran maeth a newid mewn ymddygiad defnyddwyr

2.43 Gellir cysylltu trawsnewid gwledydd o ran maeth i ddatblygiad gwlad a chyfoeth ei phoblogaeth.[59] Yn gyffredinol, wrth i gyfoeth gwlad gynyddu, felly hefyd mae'r galw am gig, cynhyrchion llaeth ac, yn enwedig, y galw am fwydydd wedi'u prosesu ac wedi'u puro fel siwgrau, olewau a brasterau.[60] Dywed adroddiad Chatham House y bydd ar wledydd fel Tsieina, India, Gwlad Thai a'r Aifft angen mwy a mwy o borthiant anifeiliaid, dŵr a thir pori wrth i'r duedd hon barhau. Felly bydd angen iddynt fewnforio rhywfaint o borthiant a da byw i ddiwallu'r galw hwn.[61] Mae *Ffermio Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn* yn cydnabod bod y galw cynyddol o du Tsieina ac India am gynhyrchion cig a llaeth oddi wrth wledydd datblygedig yn yrrwr byd-eang allweddol sy'n effeithio ar y sectorau bwyd-amaeth.[62]

2.44 Mae'n bosibl y bydd globaleiddio'r galw am gynhyrchion bwyd hefyd yn rhoi cyfle i Gymru. Gwelodd ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i globaleiddio a'i effaith ar Gymru fod y galw cynyddol am gynhyrchion cig a llaeth ym marchnadoedd datblygol Tsieina ac India'n rhoi cyfle i Gymru sicrhau ei bod yn allforio cymaint â phosibl.[63] Mae'r adroddiad yn cydnabod, wrth i gyfoeth gynyddu yn y marchnadoedd hyn sy'n datblygu, mae'n creu mwy o farchnadoedd a chyfleoedd ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion bwyd premiwm yng Nghymru.[64] Yn y sesiwn dystiolaeth i ddarganfod y sefyllfa sydd ohoni fel rhan o ymchwiliad yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig i fwyd, gwnaeth yr Athro Marsden sylw ar y cyfleoedd allforio y mae'r trawsnewid hwn o ran maeth yn ei gyflwyno, ac roedd yn dadlau bod angen newid sylweddol a mwy o gydlyniad wrth farchnata a hybu allforion.[65] Mae *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn* yn dadlau bod gan Gymru gyfle i'w gosod ei hun ar y brig fel cynhyrchwr cynhyrchion cig a llaeth o ansawdd yn y farchnad fyd-eang.[66]

[59] Chatham House, Food Futures: Rethinking UK Strategy, Chwefror 2009 tudalen 12
[60] Ibid, tudalen 12
[61] Ibid, tudalen 12
[62] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn, Atodiad 1: Heriau'r Diwydiant, Mai 2009, tudalen 11
[63] Y Pwyllgor Materion Cymreig, Globalisation and its impacts, 12 February 2009, HC184-I, 2008-09, tudalen 44, para 111
[64] Ibid, para 111
[65] Cofnod y Trafodion, t19, 15 Ionawr 2009, yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
[66] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Farming Food and Countryside - Building a Secure Future, Annex 1: Industry Challenges, Mai 2009, tudalen 11

POLISÏAU'R LLYWODRAETH

Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn

3.1 Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi lansio strategaeth ffermio newydd yn ddiweddar, sef *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn.*[67] Nod y strategaeth yw manylu ar weledigaeth o ffermio Cymru sydd wrth galon cefn gwlad cynaliadwy ac economi wledig broffidiol. Mae'n adeiladu ar y *Strategaeth Ffermio ar gyfer y Dyfodol* gynharach ac yn ystyried argymhellion yr adroddiad annibynnol *Ffermio ac Amgylchedd Cynaliadwy: Camu Ymlaen at 2020*.

3.2 Wrth lansio'r strategaeth fis Mehefin 2009, siaradodd y Gweinidog am ei dyheadau ar gyfer ffermio yng Nghymru:

> "Un o elfennau canolog y strategaeth yw i Gymru barhau â'i swyddogaeth cynhyrchu bwyd. Bydd rhaid addasu i bwysau'r farchnad a'r amgylchedd yn y dyfodol, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn chwarae ein rhan i fodloni'r galw am fwyd wrth i boblogaeth y byd dyfu. Rwy'n credu'n bendant y gall dyfodol economi ffermio, cefn gwlad a chymunedau Cymru wledig fod yn broffidiol ac yn gynaliadwy."[68]

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cig Coch

3.3 Derbyniodd *Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) Diwydiant Cig Coch Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru)[69] gymeradwyaeth y Cynulliad fis Mawrth 2009. Yna cymeradwyodd Tŷ'r Cyffredin yr LCO fis Mai 2009. Mae gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau datganoledig sylweddol ym maes amaethyddiaeth; diben y Gorchymyn hwn yw rhoi'r pwerau deddfwriaethol cyntaf yn y maes hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn benodol, bydd yr LCO yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo Mesurau'n ymwneud â'r diwydiant cig coch yng Nghymru.

3.4 Meddai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wrth siarad mewn Cyfarfod Llawn ar 23 Medi 2008:

> "Diben uniongyrchol y Gorchymyn hwn heddiw yw goresgyn y rhwystrau a ddaw yn sgil Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, a rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol ddiffinio trefniadau i gasglu ardollau gan y sector cig coch, a hynny er mwyn hyrwyddo diwydiant cig coch Cymru."

3.5 Cymeradwyodd Tŷ'r Arglwyddi'r Gorchymyn drafft fis Mehefin 2009, a mae nawr yn aros am gydsyniad Brenhinol.

---

[67] Llywodraeth Cynulliad Cymru Ffermio Bwyd a Chefn Gwlad – Creu dyfodol cadarn. tudalen we [ar 19 Mehefin 2009]

[68] Llywodraeth Cynulliad Cymru Farming, Food and Countryside helps to build a secure future for Farmers in Wales. Tudalen we [ar 19.06.09]

[69] Llywodraeth Cynulliad Cymru Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008 (ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru) tudalen we [ar 5 Mehefin 2009]

Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol

3.6 Mae cytundeb *Cymru'n Un*[70] yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu menter fawr ar Gaffael Bwyd Lleol ac, yn fwyaf diweddar, lansiwyd y Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol[71] a'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd.[72]

3.7 Nod y Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol yw helpu cwmnïau bwyd a diod Cymru â'u hymdrechion i gyrchu marchnadoedd lleol. Mae hefyd yn ceisio'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr brynu bwyd a diod sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd hyn yn gwella busnes, yn diogelu swyddi ac yn creu swyddi ychwanegol, ac yn annog bwyta'n iach. Dylai hefyd helpu Cymru i gynnal safonau diogelwch bwyd uchel, datblygu diwylliannau bwyd lleol a lleihau taith bwyd.

3.8 Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys cefnogi datblygu marchnadoedd y ffermwyr a datblygu'r sectorau cynhyrchu a phrosesu; annog cynhyrchwyr i arallgyfeirio i ddiwallu'r galw lleol; datblygu prosiectau bwyd cymunedol a chyrff cynrychioliadol bwyd; annog pob sector i gyrchu mwy o fwyd a diod lleol, a sicrhau safonau diogelwch bwyd a hylendid uchel.

3.9 Nodwyd cysylltiadau â nodau polisïau eraill Llywodraeth Cymru hefyd. Mae'r cynllun yn cysylltu â'r gwaith i wella ansawdd a gwerth maethol bwyd sydd ar gael mewn ysgolion trwy Flas am Oes; gwaith Llywodraeth Cymru i wella'r hyn sydd ar gael yn ysbytai Cymru; y cynllun strategol i wella deietau yng Nghymru, o'r enw Ansawdd Bwyd i bawb yng Nghymru, a; nodau polisïau'n ymwneud â datblygu economaidd, adfywio cymunedau a chynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol.

Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd

3.10 Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones a'r Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones ar 29 Ebrill 2009. Nod y cynllun yw datblygu cysylltiadau rhwng bwyd a thwristiaeth i fanteisio i'r eithaf ar fuddion economaidd darparu profiad bwyd unigryw a neilltuol, o'r ansawdd gorau i ymwelwyr. Mae'n dwyn ynghyd y sectorau amaethyddiaeth, twristiaeth a chynhyrchu a phrosesu bwyd a'r sector gwasanaeth, ac yn nodi blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer datblygu sector bwyd a thwristiaeth Cymru.

[70] Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru. Tudalen we [ar 19 Mehefin]
[71] Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol. Tudalen we [ar 30 Mehefin 09]
[72] Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd. Tudalen we [ar 30 Mehefin 09]

3.11 Wrth siarad yn nigwyddiad lansio'r cynllun, dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig:

> "Mae ein Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd yn gysylltiedig â gwella delwedd Cymru fel cyrchfan lle y mae bwyd nodedig o ansawdd uchel ar gael yn gyffredinol yn ein bwytai, tafarndai, gwestai a'n tai llety. Rydym am sicrhau bod ein hymwelwyr yn cael profiad bwyd eithriadol yn seiliedig ar fwyd lleol a nodedig. Yn 2008, cafodd categori cyntaf Cyrchfan Twristiaeth Bwyd ei gynnwys yng Ngwobrau Bwyd a Diod Gwir Flas Cymru. Nod y gwobrau yw codi ymwybyddiaeth o'r lleoliadau rhagorol ledled Cymru ar gyfer Twristiaeth Bwyd, ac rydym yn bwriadu parhau â'r categori yn y dyfodol. Mae'n amlwg bod galw am brofiadau a lleoliadau danteithiol sy'n hybu ac yn marchnata bwyd a diod o Gymru o ansawdd uchel. Mae'r camau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun wedi'u cynllunio i'n helpu i fodloni'r galw hwn."

3.12 Siaradodd y Gweinidog dros Dreftadaeth am bwysigrwydd bwyd wrth greu profiad unigryw i ymwelwyr:

> "Mae pwysigrwydd bwyd i'r diwydiant twristiaeth wedi cynyddu'n sylweddol o fewn y deng mlynedd diwethaf, ac mae'n cael ei gydnabod yn fwyfwy fod bwyd yn rhoi teimlad unigryw i leoliad. Mae cynnyrch bwyd a phrydau arbennig hefyd yn fynegiant o ddiwylliannau lleol, ac mae twristiaeth goginio ac amaeth-dwristiaeth yn elfennau hanfodol o'r hyn sydd gan dwristiaeth ddiwylliannol i'w gynnig mewn cyrchfan. Mae twristiaeth bwyd yn cyfuno'r ddwy egwyddor yn llwyr er mwyn gwneud y gorau o effaith economaidd amrywiol weithgareddau sy'n cysylltu bwyd a thwristiaeth."

3.13 Amcan cyntaf y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd yw gwella delwedd Cymru fel cyrchfan lle mae bwyd nodedig o ansawdd uchel ar gael yn eang. Ymhlith y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn mae adolygu brand y Gwir Flas ac adolygu a datblygu cynnwys gwefan y Gwir Flas.

3.14 Rhoddodd y Gweinidog a'i swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar 17 Mehefin 2009, gan ddweud y bwriadwyd cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad ar ddiwedd mis Mehefin 2009. Dangosodd y canlyniadau interim fod angen mwy o waith i gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr er bod rhai busnesau'n ymwybodol o frand y Gwir Flas.

> "The review shows that the brand has been very successful, business to business, but that there is a need to move it on to engage more closely with consumers, to raise their awareness of the Wales the True Taste brand. [...] We now need to increase that awareness among consumers, so that there is a consumer pull for products that are branded with the True Taste logo."

Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer diwydiant llaeth Cymru

3.15 Cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant llaeth fis Tachwedd 2007[73]. Manylwyd ar yr ymrwymiad hwn hefyd yng nghytundeb *Cymru'n Un*. Cafodd y cynllun ei ddatblygu mewn partneriaeth â Grŵp y Strategaeth Laeth, sy'n cynrychioli'r sector, a'r Cyngor Datblygu Llaeth. Mae gan y Cynllun weledigaeth, sef 'sector llaeth Cymreig sy'n gynaliadwy, proffidiol, effeithiol a blaengar ac sy'n dod â budd i bobl Cymru. Mae'n canolbwyntio ar dri nod strategol,

[73] Llywodraeth Cynulliad Cymru Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru, tudalen we [ar 5 Mehefin 2009]

- Gwella lefelau'r ddealltwriaeth o dueddiadau'r farchnad ac ymddygiad defnyddwyr;
- Meithrin arloesedd a gwella dolenni'r gadwyn gyflenwi;
- Gwella perfformiad busnes cynhyrchwyr a phroseswyr mewn ymateb i amodau newidiol y farchnad, gofynion amgylcheddol a galwadau defnyddwyr.

3.16 Dywed y cynllun y bydd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Datblygu Llaeth, er mwyn cyflawni'r nodau'n llwyddiannus, yn darparu amrywiaeth o weithgareddau cymorth y bydd Cyswllt Ffermio a mentrau eraill yn eu cyflenwi.

Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013

3.17 Mae *Echel 1 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013*[74] yn darparu adnoddau ar gyfer mesurau sy'n targedu cystadleugarwch y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae hyn yn cynnwys y cynlluniau a ganlyn[75]

3.18 *Cynllun y Grant Prosesu a Marchnata,* sy'n cefnogi busnesau fferm a chynhyrchwyr a phroseswyr bwyd a diod i ychwanegu at werth eu cynnyrch ac i fod yn flaengar ac yn gystadleuol mewn marchnadoedd byd-eang. Mae hefyd yn cefnogi busnesau bwyd-amaeth a chynhyrchwyr a phroseswyr bwyd a diod eraill i nodi a datblygu marchnadoedd newydd sydd eisoes yn bodoli.

3.19 Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar 17 Mehefin[76], dywedodd y Gweinidog fod cylch cyllido newydd dan y cynllun hwn wedi dechrau a, hyd yma, mae 80 o brosiectau wedi cael eu hariannu gan ddyfarnu cyfanswm grantiau o £17.6 miliwn.

3.20 *Cyswllt Ffermio a 'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr*. Mae Cyswllt Ffermio'n darparu cyngor ar arallgyfeirio fferm, arloesedd, rheolaeth busnes, yr amgylchedd, marchnata a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

3.21 *Cynllun Effeithiolrwydd y Gadwyn Gyflenwi*. Mae cynllun newydd effeithiolrwydd y gadwyn gyflenwi wedi'i ddatblygu i ddarparu cymorth ar gyfer gwaith cydweithredol i ddatblygu cynhyrchion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth. Hyd yma, mae 20 o brosiectau wedi cael eu hariannu, gan ddyfarnu cyfanswm grantiau o ychydig dros £16 miliwn.

Strategaeth Bwyd-Amaeth

3.22 Sefydlwyd y Bartneriaeth Bwyd-amaeth ym 1999, ac roedd yn dwyn ynghyd partneriaid cyhoeddus a phreifat o holl sectorau'r gadwyn gyflenwi. Y tri sector amaethyddol gwreiddiol a ddaeth dan gylch gwaith y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth oedd y sector cig oen a chig eidion, y sector llaeth a'r sector organig, ond mae sectorau eraill wedi'u hychwanegu ers hynny.

---

[74] Llywodraeth Cynulliad Cymru Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013 tudalen we [ar 5 Mehefin 2009]
[75] Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru Axis 1 Schemes tudalen we [ar 5 Mehefin 2009]
[76] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Tystiolaeth oddi wrth y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Tudalen we [ar Mehefin 19]

3.23 Sefydlwyd tri grŵp sector a arweiniodd ar gynlluniau gweithredu ar gyfer cynhyrchu cig coch, cynhyrchion llaeth a chynhyrchion organig. Galwyd ynghyd Grŵp Datblygu Ffermydd hefyd i edrych ar faterion sy'n effeithio ar bob sector cynhyrchu cynradd.

3.24 Yn 2001, cyhoeddwyd adolygiad o'r Strategaeth, dan yr enw *Tuag at 2003*. Ychwanegwyd dau grŵp sector arall yn 2002, gan ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pysgodfeydd a dyframaeth, a garddwriaeth.

3.25 Adolygwyd y strategaeth gyffredinol yn 2004, yn y ddogfen *Tuag at 2007*[77] ac mae elfennau unigol o'r Strategaeth wedi'u diweddaru ers hynny.

3.26 Fis Rhagfyr 2008, penododd y Gweinidog dros Faterion Gwledig aelodau'r Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod dros Gymru, sydd wedi disodli Grŵp Cynghori'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth a oedd eisoes yn bodoli. Bydd y grŵp yn adeiladu ar waith Grŵp Cynghori'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth a fu'n darparu cyfarwyddyd a chefnogaeth er 1999 i Awdurdod Datblygu Cymru gynt a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu gwasanaethau cymorth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, a'u rhoi ar waith. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor fis Mehefin 2009, cyfeiriodd y Gweinidog at waith parhaus y bartneriaeth sy'n goruchwylio datblygu strategaeth *Bwyd a Diod o Gymru* a'i rhoi ar waith, ac yn darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar ei chymorth i'r diwydiant bwyd a diod.

3.27 Mae ystod eang o gynrychiolwyr yn rhan o'r bartneriaeth, a byddant yn ystyried y cysylltiadau ag iechyd a diogelwch bwyd a chysylltiadau â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, yn enwedig y *Cynllun Datblygu Cynaliadwy*.

3.28 Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd y Gweinidog benodiad Dr Haydn E. Edwards i swydd Cadeirydd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod. Cychwynnodd benodiad Dr Edwards ar 1 Gorffennaf 2009 a bydd yn parhau am dair blynedd.

3.29 Wrth gyhoeddi ei benodiad, dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig:

> "Mae gan Dr Edwards brofiad helaeth o weithio gyda diwydiant bwyd Cymru ar lefel academaidd ac ymarferol, ac fel Cyfarwyddwr y Ganolfan Technoleg Bwyd lwyddiannus yng Ngholeg Menai, Llangefni. Rwy'n falch o benodi Dr Edwards i'r swydd bwysig hon ar adeg ffyniannus dros ben i ddiwydiant bwyd a diod Cymru gyda chefnogaeth gadarn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru."

3.30 Mae Dr Edwards wedi bod yn Brifathro ac yn Brif Weithredwr yng Ngholeg Menai er 1994. Mae Dr Edwards wedi cyfrannu at ddatblygu Canolfan Technoleg Bwyd Coleg Menai yn Llangefni, sef canolfan sydd wedi bod yn gyfleuster pwysig i fusnesau bwyd sydd am ddatblygu a marchnata cynhyrchion bwyd a diod newydd ac arloesol.

[77] Llywodraeth Cynulliad Cymru Strategaeth ar Waith: Tuag at 2007

Cynllun Gweithredu Strategol Diwydiant Cig Coch Cymru (2009)

3.31 Mae hwn yn ceisio mynd i'r afael â *Chytundeb Cymru'n Un* Llywodraeth Cymru (mis Mehefin 2007) trwy gefnogi diwydiant amaethyddol cig coch Cymru, sy'n chwarae rôl bwysig wrth gyfrannu at ystyriaethau amgylcheddol ac wrth gefnogi'r economi gymdeithasol wledig.

Strategaeth Pysgodfeydd Cymru (2008)

3.32 Dyma strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli a datblygu pysgodfeydd yng Nghymru ledled pob sector ddyframaeth, pysgodfeydd masnachol a physgodfeydd hamdden ar gyfer 2020.

Cynllun Gweithredu Organig i Gymru (y Cyntaf 1999 a'r Ail 2004)

3.33 Ceisiodd y cynllun gweithredu cyntaf sefydlu rôl allweddol amaethyddiaeth organig mewn polisïau amaethyddol ac amgylcheddol yng Nghymru, ehangu sector organig Cymru a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd marchnata sydd ar gynnydd.

3.34 Mae'r ail gynllun gweithredu'n argymell newid mewn pwyslais; yn hytrach nag annog cymorth, mae'r pwyslais ar wella marchnata cynhyrchion organig, gan ddatblygu dealltwriaeth defnyddwyr.

Strategaeth Garddwriaeth i Gymru (2003)

3.35 Y prif amcanion yw creu diwydiant garddwriaeth yng Nghymru sy'n gynaliadwy ac sy'n cael ei yrru gan y farchnad, mynd i'r afael â materion amgylcheddol ac economaidd sy'n ymwneud â'r sector a chefnogi datblygiad parhaus yr amgylchedd gwledig a'i gymunedau .

Datblygu Cynllun Gweithredu Strategol Sector Pysgodfeydd a Dyframaeth Cymru (2003)

3.36 Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar wasanaethau darparu bwyd y diwydiannau pysgota a dyframaeth yng Nghymru, datblygu cynhyrchion a marchnadoedd newydd a hybu cynhyrchion y diwydiant. Nid yw'n mynd i'r afael â materion rheoli ac nid dyna oedd ei fwriad.

Y Sector Cig Oen a Chig Eidion Cymreig – Cynllun Gweithredu Strategol (1999)

3.37 Mae i'r Cynllun dri nod strategol; gwahaniaethu cynhyrchion cig oen a chig eidion Cymru yn y farchnad fel eu bod yn cystadlu mwy o ran ansawdd a llai o ran pris, cryfhau'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu yn y gadwyn cyflenwi bwyd a datblygu dull integredig o fynd ati i gyflawni gwell ansawdd a chynhyrchiant mwy cost effeithlon ar ffermydd Cymru.

MATERION ALLWEDDOL SY'N CODI O'R DYSTIOLAETH

4.1 Dechreuodd y Pwyllgor yr ymchwiliad hwn trwy gynnal digwyddiad rhanddeiliaid i geisio ennill gwell dealltwriaeth o'r materion gwirioneddol sy'n wynebu'r diwydiant bwyd yng Nghymru. Aethom hefyd ar ymweliad ymchwiliol â Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn Aberystwyth i edrych ar waith ymchwil a datblygu roeddent yn ei wneud yno ym maes cynhyrchu bwyd. Gwnaethom gymryd tystiolaeth oddi wrth amrywiaeth fawr o randdeiliaid, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn ogystal ag oddi wrth y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Atodir manylion pawb a ddarparodd dystiolaeth i'r Pwyllgor fel atodiadau.

4.2 Mae'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth wedi'u rhannu o fewn y meysydd a ganlyn:

- Gwybodaeth a chyfathrebu
- Cyrchu lleol a chaffael cyhoeddus
- Marchnata a hybu
- Heriau'r dyfodol

GWYBODAETH A CHYFATHREBU

5.1 Clywodd y Pwyllgor oddi wrth nifer o dystion fod yna ormod o bolisïau a strategaethau bwyd.

5.2 Roedd yr Athro Kevin Morgan, Prifysgol Caerdydd, yn amcangyfrif bod yna o leiaf 14 strategaeth fwyd yng Nghymru, a dygodd sylw at y potensial am wrthdaro rhwng y gwahanol strategaethau hyn.

5.3 Awgrymodd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fod angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio mwy at hybu nifer bach o fentrau allweddol i helpu'r diwydiant i symud ymlaen yn hytrach na chynhyrchu strategaethau a dogfennau niferus. Dywedwyd wrthym ei bod yn ymddangos mai ychydig a wneir i werthuso a monitro effeithiolrwydd strategaethau a pholisïau, er yr ymddengys y rhoddir llawer o ymdrech i'w cynhyrchu.

5.4 Meddai'r Athro Morgan:

> "Sadly in Wales, we suffer from a knowledge deficit. We do not know how successful all the initiatives have been, and yet here we are knee-deep in new agri-food strategies."

5.5 Roedd tystiolaeth yn awgrymu bod y pontio rhwng Cynlluniau Datblygu Gwledig wedi creu anawsterau, gan arwain at oedi cyn i grantiau ddod ar gael ar gyfer prosesu a marchnata. Fe glywsom hefyd fod yna angen am well integreiddio yn y Cynllun Datblygu Gwledig drwyddo draw, yn enwedig rhwng Echel 1 ac Echel 2.

5.6 Thema gyffredin arall yn y dystiolaeth drwyddi draw oedd y gred y collwyd momentwm yn yr agenda fwyd ers i Awdurdod Datblygu Cymru ddod yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn ôl Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru:

> "When it was within the Welsh Development Agency's agri-food sector, there was real support and expertise and individuals who could help and hold your hand all the way through the process from the farm gate to the shop shelf, but we simply do not have that now. A lot of expertise has been lost because those people did not get absorbed into the Assembly team when it was put in place."

5.7 Er ein bod yn derbyn bod y Gweinidog a'i swyddogion yn bwriadu i'r gwahanol strategaethau a pholisïau ffitio â'i gilydd i ddarparu fframwaith cydlynol, mae'r Pwyllgor yn pryderu mai diffyg cydlyniad a gweithio'n gydgysylltiedig yw canfyddiad sefydliadau allanol. Roedd yr honiadau'n ymwneud â cholli arbenigedd hefyd yn achos pryder. Ar un adeg, y canfyddiad oedd bod Llywodraeth Cymru'n arwain ym meysydd arloesedd, cymorth a datblygiad, ac rydym o'r farn fod angen polisi cwbl gydlynol i hybu bwyd Cymru bellach, i ddod â ni yn ôl i'r sefyllfa hon.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Hyrwyddwr Bwyd Cymru i gydlynu a goruchwylio'r agenda hybu bwyd yng Nghymru, a sicrhau bod hyn yn cysylltu â meysydd polisi allweddol eraill, fel addysg iechyd, yr amgylchedd a datblygu gwledig.

5.8 Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg eglurdeb o ran defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy fonitro a gwerthuso'r strategaeth fwyd ac o ran y modd y mae hyn yn dylanwadu ar y cyfeiriad y bydd y polisi bwyd yng Nghymru'n mynd iddo yn y dyfodol.

Argymhelliad 2: Dylai'r Strategaeth Bwyd a Diod o Gymru newydd fod â mecanwaith adrodd yn rhan ohoni o'r dechrau i sicrhau bod gwaith monitro'n cael ei wneud i gymharu cyflawniadau â thargedau mesuradwy, a dylai hyn fod ar gael ar gyfer craffu cyhoeddus. Dylai'r cynlluniau sydd newydd eu lansio ar gyfer cyrchu lleol a thwristiaeth bwyd ddangos yn eu hadroddiadau blynyddol sut bydd yr wybodaeth a gesglir yn dylanwadu ar eu cyfeiriad yn y dyfodol.

CYRCHU LLEOL A CHAFFAEL YN Y SECTOR CYHOEDDUS

Cyrchu Lleol

6.1 Awgrymodd nifer o'r rheiny a gyflwynodd dystiolaeth bod angen i ni gynyddu cynaliadwyedd ein systemau bwyd yng Nghymru os ydym am gynnal ein gallu i gynhyrchu bwyd yn y tymor hir. Cawsom ein rhybuddio rhag y perygl o roi ein hunain yn nwylo gwledydd eraill, gan fod nifer o wledydd ledled y byd wedi gwahardd allforio yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd eu bod yn fyr o fwyd eu hunain.

6.2 Rhoddwyd gwybod i ni am yr angen i gydbwyso galwadau ym meysydd cynhyrchu bwyd, ynni a diogelu'r amgylchedd, sy'n cystadlu â'i gilydd, a dywedwyd nad yw cynhyrchu mwy, sy'n defnyddio mwy o adnoddau ac yn achosi mwy o lygredd ac allyriadau, yn opsiwn dichonadwy. Roedd angen gwerthuso'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd yng Nghymru a pha mor effeithiol yr oedd yn cael ei ddefnyddio, gan yr awgrymwyd bod yna swm enfawr o wastraff wrth ddefnyddio'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd.

6.3 Mae'r Pwyllgor o'r farn fod cynyddu cynaliadwyedd systemau bwyd Cymru'n hollbwysig os ydym yn mynd i allu cynhyrchu digon o fwyd ar gyfer y dyfodol, ac mae'n cytuno bod yn rhaid cydbwyso hyn ag agenda ehangach diogelu'r amgylchedd.

Argymhelliad 3: Dylai'r nod o adeiladu system bwyd cynaliadwy fod wrth graidd strategaeth gyffredin newydd Bwyd a Diod o Gymru Llywodraeth Cymru, i gydbwyso heriau cynhyrchu bwyd, anghenion ynni a diogelu'r amgylchedd. Dylai hyn gynnwys ymgysylltiad llawn gwahanol sectorau, gan gynnwys iechyd, addysg a'r amgylchedd, yn ogystal â datblygu gwledig. Dylai hyn gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid y tu allan i'r strategaeth bwyd-amaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu.

6.4 Dywedwyd wrthym y gall rheolau caffael yr UE fod yn rhwystr i gyrchu lleol, gan eu bod yn ei gwneud yn anodd i reolwyr caffael ddweud yn benodol eu bod eisiau cynnyrch Cymreig, ond gellid goresgyn hyn trwy ddatblygu contractwyr lleol. Fe glywsom hefyd sut bu rhai awdurdodau'n newid y pwyslais yn eu dogfennau tendro i ganolbwyntio'n drymach ar yr agenda bwyta'n iach, er enghraifft, gan ddefnyddio geiriau fel 'ffres' yn hytrach na 'lleol'.

6.5 Clywodd y Pwyllgor hefyd am ddulliau arloesol o dendro yn Fflorens a oedd yn sicrhau bod holl fwyd ysgolion yn cael ei gyflenwi'n lleol. Roedd hyn o fudd i'r gymuned leol, gan sicrhau mai'r cynnyrch mwyaf ffres yn unig a ddarparwyd i'r plant ysgol, ac o fudd i'r economi leol, gan gadw'r cyllid yn cylchredeg yn Fflorens.

6.6 Er bod Cymru'n gryf iawn yn y sectorau llaeth a chig, dywedwyd wrthym nad oedd digon o dyfwyr ffrwythau a llysiau i ddiwallu'r galw am gynnyrch Cymreig, a bod llawer o'r hyn a gynhyrchir yn dueddol o fynd i'r archfarchnadoedd.

6.7 Awgrymodd tystiolaeth oddi wrth y sector lletygarwch fod hyn yn fater o bwys iddynt, yn ogystal â chyrchu pysgod ffres lleol. Gwnaethant ddwyn sylw at bwysigrwydd cyflenwad parhaus iddyn nhw, ac roedd tuedd i hyn arwain at ddefnyddio cyfanwerthwyr, yn enwedig ar gyfer llysiau, yn hytrach na mynd yn uniongyrchol at gynhyrchwr lleol. Gwnaethant hefyd awgrymu bod angen i gynhyrchwyr bach lleol fod yn fwy ymwybodol yn fasnachol a deall y farchnad roeddent am ei thargedu er mwyn sicrhau nad ydynt yn gosod eu prisiau'n rhy uchel iddi.

6.8 Roedd cynhyrchwyr bach yn dueddol o beidio â gallu cynhyrchu digon i gyflenwi dosbarthwyr mawr, ac roedd hyn yn anhawster arall wrth gyrchu cynhyrchion lleol. Roedd yn gwneud y broses archebu'n fwy hirwyntog a chostus, gan ei bod yn golygu delio'n uniongyrchol â'r cynhyrchwr. Felly, ni fyddai llawer o gwmnïau'n gallu neilltuo digon o amser i gyrchu cynnyrch lleol, neu ni fyddent eisiau gwneud hynny.

6.9 Awgrymodd yr Athro Terry Marsden y byddai datblygu cymelliannau a fframweithiau hwyluso a fyddai'n annog cydweithredu rhwng ffermwyr a chynhyrchwyr bach yn un ffordd i adeiladu pŵer yn y gadwyn gyflenwi, ac ar yr un pryd eu galluogi i gadw eu hunigolrwydd. Fe wnaethom dderbyn llawer o ymatebion hefyd yn cefnogi creu ombwdsmon archfarchnadoedd i warchod buddiannau cynhyrchwyr bach a'r defnyddiwr.

6.10 Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r alwad am Ombwdsmon i warchod ffermwyr a chyflenwyr rhag eu hecsbloetio gan archfarchnadoedd ac i sicrhau tryloywder yn y gadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn annhebygol y penodir Ombwdsmon i ddelio'n benodol â materion yng Nghymru.

Argymhelliad 4: Rydym yn annog y Gweinidog i sicrhau bod anghenion Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn pan fydd Ombwdsmon Prydain yn cael ei sefydlu, gan gynnwys darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ar gyfer Cymru.

6.11 Awgrymodd tystiolaeth a gyflwynwyd gan Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru fod dymuniad cryf o du defnyddwyr Cymru am bysgod a chynnyrch pysgod o ffynonellau Cymreig. Fodd bynnag, roedd diffyg unrhyw seilwaith cadwyn gyflenwi neu seilwaith prosesu wedi llesteirio mentrau marchnata a hybu yng Nghymru'n ddifrifol. Roedd hyn wedi arwain at rywfaint o rwystredigaeth, pan nad oedd cwsmeriaid posibl wedi gallu cyrchu cynhyrchion i unrhyw raddau parhaus neu ddibynadwy. Roeddent o'r farn fod angen newid diwylliannol sylweddol wrth gydweithio, os yw'r diwydiant am oroesi a ffynnu.

6.12 Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r broblem fwyaf sy'n wynebu marchnadoedd y ffermwyr oedd sut i ddiffinio cynhyrchion Cymreig a chynhyrchion lleol, a theimlwyd y gallai lefel y tryloywder fod yn is ar adegau na chyda'r siopau cadwyn. Problem arall oedd diffyg unrhyw system wedi'i ffurfioli i achredu cynhyrchwyr neu i wirio tarddle'r cynhyrchion a werthir ym marchnadoedd y ffermwyr. Awgrymwyd ei bod yn debygol y byddai o ansawdd gwell gan fod mwyafrif y cynhyrchwyr wedi dilyn y broses gynhyrchu o'r dechrau i'r diwedd, ond nid oedd gwarant o hynny.

6.13 Awgrymwyd y dylai marchnadoedd y ffermwyr eu sefydlu eu hunain fel strwythurau cydweithredol a hunanlywodraethol, lle roedd rhywfaint o ddiffiniad o'r term marchnad y ffermwyr. Nid oedd 'marchnad y ffermwyr' yn derm cyfreithiol; felly gellid ei gamddefnyddio'n helaeth. Byddai ddull cydweithredol o ddiffinio'r marchnadoedd a'u modd o weithredu, gyda logo neu ryw fath o ddyfais farchnata, yn ei gwneud yn haws i'r cwsmeriaid wybod yn union beth yw marchnad y ffermwyr go iawn.

6.14 Dygodd nifer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd proseswyr, lladd-dai bach a siopau cigydd lleol wrth gynhyrchu bwydydd lleol, ac felly hefyd yr angen am addysg a hyfforddiant i ddatblygu sgiliau newydd yn y maes hwn. Roedd llawer o broseswyr yn defnyddio llawer ar lafur tramor, a chyda'r gyfradd trosi'r ewro yn erbyn y bunt ar hyn o bryd, mynegwyd pryder y gallai llawer o bobl â sgiliau gael eu hallforio.

6.15 Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd ynglŷn â'r anallu i gyrchu bwyd y môr lleol, o ystyried bod cymaint o bysgod o amgylch arfordir Cymru, yn bryder arbennig i'r Pwyllgor. Rydym yn derbyn y dystiolaeth bod yna ddiffyg seilwaith prosesu a seilwaith cadwyn gyflenwi yng Nghymru ar hyn o bryd, ac yn gobeithio y bydd Strategaeth Pysgodfeydd Cymru Llywodraeth Cymru'n dechrau mynd i'r afael â hyn a dod â Chymru'n gyfartal â'i chymheiriaid mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Caffael yn y Sector Cyhoeddus

6.16 Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai adroddiad Pennington ar yr achosion o E.coli yn Ne Cymru effeithio'n sylweddol ar gaffael cyhoeddus yn y dyfodol, o ran yr angen am osgoi risg uwch. Awgrymwyd y bu tuedd yng Nghymru i ystyried mai cost isel yw'r gwerth gorau. Yn amlwg, nid felly y mae bob amser, fel y profodd darganfyddiadau adroddiad Pennington.

6.17 Fe glywsom bryderon nad oedd unrhyw ymrwymiad i gefnogi cynnyrch lleol, er bod llawer o gyrff y llywodraeth ac awdurdodau lleol wedi mabwysiadu mentrau i gefnogi cynnyrch masnach deg. Awgrymwyd y dylai'r sector cyhoeddus arwain trwy esiampl a chydnabod rhinweddau amgylcheddol ac economaidd cyrchu lleol, a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt. Dylid ystyried bod prynu'n lleol yn fuddsoddiad mewn amgylcheddau ac economïau lleol.

6.18 Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oedd cydlynu contract a thrafod ei delerau ar lefel Cymru-gyfan yn golygu mai un ateb ydoedd o un cyflenwr ar gyfer Cymru gyfan. Er enghraifft, roedd gan y GIG nifer o gontractau ar waith, wedi'u dyfarnu ar sail ddaearyddol ar gyfer pethau fel llaeth a bara felly, yn aml, roedd camsyniad mai un cyflenwr mawr ar gyfer yr ardal gyfan ydoedd gan iddo gael ei lunio ar sail Cymru-gyfan. Nid felly yr oedd, mewn gwirionedd.

6.19 Awgrymodd tystiolaeth ei bod yn anodd i gynhyrchwyr bach lleol ennill contractau mawr gan na allent, ar y cyfan, warantu digon o gyflenwadau o'u cynnyrch. Roeddent hefyd yn ei chael yn anodd bodloni llawer o feini prawf ariannol contract mawr. Un ateb posibl, efallai, fyddai creu corff cynrychioliadol. Yna gallai cyrff cyhoeddus fynd atynt â'u gofynion a gallent hwyluso contractau â ffermwyr/cynhyrchwyr, fel bo'n briodol.

6.20 Awgrymwyd y gallai cyrff cynrychioliadol rhanbarthol fod yn fwy priodol nag un yn unig dros Gymru gyfan, gan fod awdurdodau lleol yn tueddu i weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, a fyddai'n ei gwneud yn anodd dod o hyd i un corff cynrychioliadol a allai ddarparu cyngor ar y lefel honno. Awgrym arall oedd y gallai'r partneriaethau bwyd-amaeth ddarparu llwybr i greu rhwydwaith neu gorff cynrychioliadol.

6.21 Dylid sefydlu cyrff cynrychioliadol bwyd rhanbarthol i helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch dosbarthu cynnyrch Cymreig lleol a hefyd i fynd i'r afael â'r mater sy'n ymwneud â maint a chysondeb cyflenwadau oddi wrth gyflenwyr llai.

6.22 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau i gynhyrchwyr bach wrth iddynt geisio ennill contractau mawr, ac yn cefnogi creu cyrff cynrychioliadol bwyd fel modd posibl o'u galluogi i ymgysylltu â chaffaelwyr ar raddfa fawr y sector cyhoeddus.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, wrth annog a chefnogi datblygu cyrff cynrychioliadol bwyd, ei bod yn cydnabod anghenion y cynhyrchwr neu'r cyflenwr ar raddfa fach, i'w galluogi i ymgysylltu â chaffaelwyr ar raddfa fawr y sector cyhoeddus.

6.23 Dywedwyd wrth y Pwyllgor yr ymgymerwyd â gwaith i geisio safoni'r dull o fynd ati i gaffael ledled y sector cyhoeddus cyfan, o ganlyniad i drafodaethau â chyflenwyr. Roedd hyn yn cynnwys dull cyson o hysbysebu tendrau, ac yn cynnwys defnyddio un wefan yn hytrach na'r oddeutu 50 o gyhoeddiadau gwahanol blaenorol.

6.24 Awgrymwyd, fodd bynnag, bod angen mwy o symleiddio er mwyn sicrhau bod y rheolau ar gyfer caffael yn gyson. Ar y pryd, roedd gan bob awdurdod lleol ei reolau caffael ei hun, ac roeddent oll yn wahanol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn enwedig ar lefelau gwahanol; roedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ei rheolau caffael ei hun ynghylch y lefel roedd yn rhaid gwahodd tendrau ar gyfer contractau; yna roedd yn rhaid i unrhyw brosiectau a oedd yn defnyddio arian Ewrop gadw at reolau caffael Ewrop. Roedd yr holl reolau hyn yn wahanol, ac yn gwneud y broses yn ddryslyd iawn i gwmnïau sydd am fod yn rhan ohoni.

6.25 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith y mae awdurdodau lleol yn ei wneud i symleiddio ac i safoni caffael ledled y sector cyhoeddus. Fe wnaethom hefyd dderbyn enghreifftiau o nifer o brosiectau sydd ar waith mewn gwahanol ardaloedd, â'r nod o godi ymwybyddiaeth o fwyta'n iach a phrynu'n lleol, a byddem yn annog mwy o rannu arfer da ymhlith awdurdodau lleol.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru, wrth gryfhau'r Fframwaith ar gyfer Caffael yn y Sector Cyhoeddus, gefnogi awdurdodau lleol i rannu arfer da a chyflwyno enghreifftiau o brosiectau sy'n cynnwys cynnyrch lleol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fuddion prynu a bwyta cynnyrch lleol.

MARCHNATA A HYBU

7.1 Roedd barn ymhlith y Pwyllgor mai ychydig iawn o farchnata bwyd Cymru a wnaed dros y 10 mlynedd diwethaf, er y bu llawer iawn o hybu'r bwyd hwnnw.

7.2 Teimlai nifer o ymatebwyr fod angen gwneud mwy i ddwyn sylw at fuddion cadarnhaol prynu cynhyrchion Cymreig. I roi lle gwirioneddol amlwg i gynhyrchion Cymreig, byddai'n rhaid pwysleisio'u hunaniaeth leol neu Gymreig, ond hefyd rhaid pwysleisio rhyw werth ychwanegol o ran pethau eraill sy'n bwysig i ddefnyddwyr neu'r rheiny sy'n llunio polisi, fel lles anifeiliaid, buddion amgylcheddol neu faterion masnach foesegol.

7.3 Dygwyd sylw at bwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i economi Cymru a'r angen i werthu'r 'profiad Cymreig'. Teimlwyd bod angen mwy o gymorth ac arian ar gyfer hyfforddi fel bod pobl sy'n gweithio yn y diwydiant yn deall y rôl y gallent ei chwarae mewn hybu cynnyrch a diwylliant Cymreig i ymwelwyr.

7.4 Awgrymwyd mai'r rheswm pam mae cynnyrch rhanbarthol a lleol yn dueddol o fod yn ddrutach oedd oherwydd ansawdd y cynhwysion ac absenoldeb arbedion maint. Pe byddai hyn yn cael ei gyfathrebu'n fwy effeithiol i ddefnyddwyr, trwy fwy o addysg ac ymgyrchoedd gwybodaeth, byddent yn prynu'n fwy gofalus ac yn barod i dalu ychydig yn fwy am gynnyrch lleol da.

7.5 Dygwyd sylw hefyd at y ffaith fod yna lawer o ymgyrchoedd hysbysebu ar gyfer cig eidion a chig oen Cymru ond ni all unrhyw rai o'r tystion gofio gweld hysbysebion am unrhyw fath arall o gynnyrch Cymreig.

7.6 Siaradodd nifer o'r tystion am lwyddiant Hybu Cig Cymru o ran datblygu, hybu a marchnata cig coch Cymru, gan ddwyn sylw at ddiffyg corff tebyg ar gyfer grwpiau bwyd eraill.

7.7 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith ardderchog y mae Hybu Cig Cymru'n ei wneud wrth godi proffil cynhyrchion cig Cymru, yn y DU a thu hwnt.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi sefydlu cyrff i ddatblygu, hybu a marchnata cynnyrch Cymreig gan ddilyn model Hybu Cig Cymru.

7.8 Dygwyd sylw at bwysigrwydd datblygu brand a marchnata a'r angen am gymorth yn y maes hwn. Teimlwyd bod craffu ar frandiau'n unigol yn bwysig dros ben, er bod yna le i weithdai cyffredinol ar gyfer nifer o gwmnïau. Awgrymwyd bod hwn yn faes lle gallai Llywodraeth Cymru chwarae rhan fwy o lawer trwy ddarparu cymorth wedi'i lunio'n fwy penodol i ddiwallu anghenion busnesau unigol, i'w cefnogi nhw a datblygiad eu brand.

Labelu

7.9 Teimlwyd yn gyffredinol bod labelu gwlad y tarddiad yn un maes lle gallai Llywodraeth Cymru chwarae rhan bwysig wrth i reoliadau newydd yr Undeb Ewropeaidd ddatblygu. Yn ôl yr Athro Kevin Morgan:

> "country of origin labelling as it is currently allowed under the EU is nothing short of a scandal."

7.10 Roedd llawer o'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn awgrymu mai'r mater pwysicaf i ddefnyddwyr oedd gwybod beth yr oeddent yn ei brynu ac o ble y daeth, ac roedd angen labelu eglur a chryno i hwyluso hyn. Dywedwyd wrthym y dylid cyflwyno labelu gwlad y tarddiad a fyddai'n atal cynnyrch o darddiad tramor rhag cael ei brosesu yng Nghymru ac yna'i labelu i nodi mai yma oedd ei darddiad.

7.11 Roedd yna farn gyffredin y dylai cynnyrch, i fod yn wirioneddol Gymreig, ddod o fferm yng Nghymru, fod wedi ei brosesu yng Nghymru ac wedi'i werthu ym marchnad Cymru. Dygwyd sylw at yr angen am iaith eglur a thryloyw wrth labelu bwyd, ynghyd â'r angen am reoleiddio termau fel 'lleol'' a 'tymhorol' i sicrhau bod unrhyw gynnyrch â diffiniad o'r fath arno o safon ddigon da.

7.12 Dysgodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw ofyniad ar hyn o bryd yn y sector gwneud elw h.y. bwytai, caffis, tafarnau, barrau a'r prif westai i gynnwys unrhyw wybodaeth ar eu bwydlenni am darddiad y cynhwysion, er bod disgwyl i'r sector cyhoeddus brynu cynhyrchion lleol, ffres ac o ansawdd. Awgrymwyd bod angen deddfwriaeth ar frys i fynd i'r afael â hyn.

7.13 Dygodd tystion sylw at yr angen am addysgu cyflenwyr llai a darparu cymorth a chefnogaeth dechnegol i'w helpu i labelu a phecynnu eu cynhyrchion yn unol â'r hyn a oedd yn y pecyn. Roedd grantiau ar gael mewn rhannau eraill o'r DU ar gyfer gwelliannau technegol ac roedd cymorth ar gael i gyflenwyr ymgymryd ag achredu technegol. Byddai croeso i unrhyw ffurf ar gymorth ariannol neu addysgol y gallai Llywodraeth Cymru ei ddarparu i'r cynhyrchwr yn hyn o beth.

7.14 Roedd y Pwyllgor yn gryf o'r farn y dylai labelu fod yn eglur ac yn fanwl gywir. Dylai defnyddwyr allu bod yn hyderus, pe byddent yn prynu cynnyrch â label arno sy'n nodi ei fod yn Gymreig, nad prynu cynhyrchion sy'n dod o rywle arall a dim ond wedi'u prosesu yng Nghymru oeddent.

Datblygu Brand Cymreig

7.15 Dywedwyd wrth y Pwyllgor pe byddai Llywodraeth Cymru am hybu cynhyrchion Cymreig trwy roi rhyw fath o nod adnabod gweledol iddynt (fel defnyddio fflag neu ddraig), yna ni fyddai rhwystr cyfreithiol i atal hynny rhag mynd rhagddo'n wirfoddol ond byddai angen system sicrwydd y tu cefn iddo i sicrhau y gellid dilysu pob honiad.

7.16 Roedd yna awgrym y dylid cyflwyno deddfwriaeth ar ddefnyddio'r ddraig goch, fel ei bod yn dod yn safon aur sy'n nodi bod y cynnyrch yr oedd arno wedi'i gynhyrchu a'i becynnu yng Nghymru. Fodd bynnag, dylid pwyllo cyn gweithredu yn y fath fodd, gan y byddai angen i unrhyw waith i hybu Cymreictod gydymffurfio â rheolau cymorth y wladwriaeth. Cafodd rhai o aelod-wladwriaethau Ewrop, gan gynnwys yr Almaen a Gweriniaeth Iwerddon, broblemau â chynlluniau tebyg. Awgrymwyd mai'r prif ffordd i wahaniaethu cynhyrchion Cymreig oedd dwyn perswâd ar y rheiny a oedd yn berchen ar y brandiau, ac yn enwedig y rheiny a oedd yn berchen ar labeli'r archfarchnadoedd eu hunain, bod gwahaniaethu ffrwd gynhyrchu Cymru'n cynnig gwerth ychwanegol.

7.17 Awgrymodd tystiolaeth arall fod yna ormod o labeli eisoes ar fwyd, a'u bod yn drysu'r defnyddiwr. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch plismona ansawdd cynhyrchion â brand Cymreig. Dywedwyd y gallai cynnyrch gwerth isel fod o Gymru ond roedd yn dal i fod yn gynnyrch gwerth isel ac nid o'r ansawdd gorau. Pe byddai pobl yn ystyried bod cynnyrch Cymreig yn gyfwerth â chynnyrch ansawdd uchel, yna gallent golli ffydd yn y label Cymreig.

7.18 Cytunodd y Pwyllgor y gallai gormod o wahanol labeli ddrysu'r defnyddiwr. Fe wnaethom dderbyn hefyd y pwyntiau a godwyd o ran ansawdd a sut gellid cyflawni safon uchel gyson ym mhob un o'r cynhyrchion ag arnynt logo Cymreig. Felly daethom i'r casgliad y dylid mabwysiadu nod y Gwir Flas ar gyfer cynnyrch Cymreig o ansawdd da ac y dylid mynd ati i wneud gwaith i godi ymwybyddiaeth ohono ymhlith defnyddwyr.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn annog y Gweinidog i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cynrychioli anghenion cynhyrchwyr a defnyddwyr Cymru'n llawn, ac i fynegi pryderon a godir ynghylch tarddle cynnyrch Cymreig, a'r gallu i'w olrhain, yn y trafodaethau parhaus ar labelu gwlad y tarddiad ar lefel Ewrop.

Gwobrau'r Gwir Flas

7.19 Safbwyntiau cymysg gafodd y Pwyllgor o ran effeithiolrwydd cynllun gwobrau'r Gwir Flas. Ar y naill law, dywedwyd wrthym ei fod wedi bod yn hynod lwyddiannus ac y gall y diwydiant a Llywodraeth Cymru fod yn falch iawn ohono, ac y dylent barhau i'w gefnogi. Roedd tystion eraill o'r farn, er ei fod yn llwyddo i ddwyn sylw at arfer da a chyflenwyr bach a oedd â chynhyrchion arbenigol ardderchog, nid oedd cystal wrth ledaenu'r neges ehangach nac wrth hybu Cymru fel brand. Problem arall oedd gallu enillwyr gwobrau i ehangu i'r maint priodol i gyflenwi manwerthwyr. Awgrymwyd bod angen gwahanol adrannau yng ngwobrau'r Gwir Flas fel bod cyflenwyr bach yn dal i gael eu gwobrwyo a'u hannog i wneud yr hyn yr oeddent yn ei wneud, ond bod yna nod arall, sef gwobrwyo'r cyflenwyr canolig eu maint oedd â'r uchelgais a'r egni i gyrraedd statws manwerthwr, fel y gellid marchnata'u cynhyrchion yn well yn yr archfarchnadoedd.

7.20 Gwnaeth adolygiad cyfredol o gynllun y Gwir Flas hefyd ddwyn sylw at y ffaith bod yna lawer o waith i'w wneud i godi proffil y Gwir Flas â'r defnyddiwr, er bod yna ymwybyddiaeth o'r brand o fusnes i fusnes. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod datblygu brand y Gwir Flas yn cyflwyno cyfleoedd i wneud cynnyrch Cymreig yn amlwg i brynwyr a defnyddwyr. Wedi i'r Pwyllgor glywed am bryderon ynghylch defnyddio label draig goch neu fflag, ei roi ar waith a'i reoleiddio, fe gytunodd y gallai'r Gwir Flas fod yn addas at y diben pe byddai'n cael ei ddatblygu fel nod adnabyddadwy cynnyrch Cymreig o ansawdd da.

Statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI)

7.21 Eto, roedd y dystiolaeth a dderbyniodd y Pwyllgor ar ddefnyddioldeb statws PGI yn amrywio. O bersbectif y manwerthwr, y farn oedd bod y broses o ennill ardystiad PGI yn anodd ac nad oedd yn golygu rhyw lawer i'r cwsmer. Roedd ganddynt fwy o ddiddordeb o lawer yn nharddiad yr anifeiliaid. Fodd bynnag, roedd proseswyr o'r farn ei fod yn ddefnyddiol wrth allforio i Ewrop lle roedd yn statws cydnabyddedig ac yn darparu gwarant o ansawdd.

Y gallu i olrhain

7.22 Clywodd y pwyllgor fod cael y safonau cywir a'r gallu i olrhain ar waith yr un mor bwysig i gyflenwyr ag ydoedd i ddefnyddwyr, gan ei fod yn cynnig modd o warchod brand iddynt. Cyn belled ag y bo'r gwiriadau cywir ar waith a'u bod yn gallu profi lle cyrchwyd eu cynhyrchion, pe byddai unrhyw broblemau'n codi â'u cynhyrchion a bod angen eu holrhain a'u gwirio, yna gallai'r brand oroesi unrhyw graffu. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i gyflenwyr wrth iddynt adeiladu brand ac wrth iddynt ddatblygu eu perthnasoedd â'r archfarchnadoedd.

7.23 Cynghorwyd y Pwyllgor bod archfarchnadoedd yn defnyddio'r un safonau ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu cludo i mewn o'r tu allan i'r DU â'r rheiny yr oeddent yn eu defnyddio ar gyfer cyflenwyr yn y DU. Roedd yn rhaid i'r holl gynhyrchion fod ag achrediad Consortiwm Manwerthu Prydain, neu gyfwerth, a oedd yn cwmpasu'r gallu i olrhain. Roedd yn rhaid iddynt hefyd gynnal safonau lles tebyg ac roeddent yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Roedd hyn yn darparu sicrwydd bod cynnyrch a oedd wedi mynd trwy'r manwerthwyr, ac yn bendant y manwerthwyr cadwyn mwy, wedi bod yn destun yr archwiliadau technegol angenrheidiol a oedd yn cwmpasu'r gallu i olrhain.

Ymchwil a Datblygu

7.24 Dywedwyd wrthym bod perygl na allem gynnal mwy o fusnes yng Nghymru heb fuddsoddiad sylweddol mewn ymchwil a datblygu ac, os na fyddai cyfleusterau ar gael i greu cynhyrchion newydd, yna byddai swyddi'n cael eu hallforio i rannau eraill o'r DU.

7.25 Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr angen am fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu yn y dyfodol i greu cynhyrchion newydd ar gyfer marchnadoedd sy'n datblygu ac i warchod swyddi sydd yn y sector ar hyn o bryd yng Nghymru.

HERIAU'R DYFODOL

Taro Cydbwysedd

8.1 Bydd cydbwyso'r materion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, anghenion ynni a diogelu'r amgylchedd yn dod yn fwyfwy pwysig. Rhaid i bolisi cyhoeddus felly fod â nod i sicrhau bod cymaint â phosibl o fwyd a thanwydd yn cael eu cynhyrchu, ac ar yr un pryd diogelu'r amgylchedd a symud tuag at system gynaliadwy, carbon isel.

Newidiadau i'r Diwydiant Ffermio ar ôl 2013

8.2 Mae'n debygol iawn y bydd y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn newid eto ar ôl 2013. Mae felly'n hanfodol bod Cymru'n dechrau cynllunio nawr ar gyfer y newid hwn. Clywodd y Pwyllgor fod angen dechrau ar y gwaith hwn nawr i baratoi sector bwyd-amaeth Cymru, yn hytrach nag amaethyddiaeth yn unig, ar gyfer newid. Disgwylir y bydd pwyslais PAC yn parhau i symud o daliadau uniongyrchol i ffermwyr i gyfeiriad cymorth amgylcheddol neu gymorth wedi'i seilio ar y gymuned wledig.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant ar y cyfle cyntaf posibl i baratoi ar gyfer newid ar ôl 2013.

Atodiad 1

Crynodeb o'r Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Hyrwyddwr Bwyd Cymru i gydlynu a goruchwylio'r agenda hybu bwyd yng Nghymru, a sicrhau bod hyn yn cysylltu â meysydd polisi allweddol eraill, fel addysg iechyd, yr amgylchedd a datblygu gwledig.

Argymhelliad 2: Dylai'r Strategaeth Bwyd a Diod o Gymru newydd fod â mecanwaith adrodd yn rhan ohoni o'r dechrau i sicrhau bod gwaith monitro'n cael ei wneud i gymharu cyflawniadau â thargedau mesuradwy, a dylai hyn fod ar gael ar gyfer craffu cyhoeddus. Dylai'r cynlluniau sydd newydd eu lansio ar gyfer cyrchu lleol a thwristiaeth bwyd ddangos yn eu hadroddiadau blynyddol sut bydd yr wybodaeth a gesglir yn dylanwadu ar eu cyfeiriad yn y dyfodol.

Argymhelliad 3: Dylai'r nod o adeiladu system bwyd cynaliadwy fod wrth graidd strategaeth gyffredin newydd Bwyd a Diod o Gymru Llywodraeth Cymru, i gydbwyso heriau cynhyrchu bwyd, anghenion ynni a diogelu'r amgylchedd. Dylai hyn gynnwys ymgysylltiad llawn gwahanol sectorau, gan gynnwys iechyd, addysg a'r amgylchedd, yn ogystal â datblygu gwledig. Dylai hyn gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid y tu allan i'r strategaeth bwyd-amaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu.

Argymhelliad 4: Rydym yn annog y Gweinidog i sicrhau bod anghenion Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn pan fydd Ombwdsmon Prydain yn cael ei sefydlu, gan gynnwys darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ar gyfer Cymru.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, wrth annog a chefnogi datblygu cyrff cynrychioliadol bwyd, ei bod yn cydnabod anghenion y cynhyrchwr neu'r cyflenwr ar raddfa fach, i'w galluogi i ymgysylltu â chaffaelwyr ar raddfa fawr y sector cyhoeddus.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru, wrth gryfhau'r Fframwaith ar gyfer Caffael yn y Sector Cyhoeddus, gefnogi awdurdodau lleol i rannu arfer da a chyflwyno enghreifftiau o brosiectau sy'n cynnwys cynnyrch lleol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fuddion prynu a bwyta cynnyrch lleol.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi sefydlu cyrff i ddatblygu, hybu a marchnata cynnyrch Cymreig gan ddilyn model Hybu Cig Cymru.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn annog y Gweinidog i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cynrychioli anghenion cynhyrchwyr a defnyddwyr Cymru'n llawn, ac i fynegi pryderon a godir ynghylch tarddle cynnyrch Cymreig, a'r gallu i'w olrhain, yn y trafodaethau parhaus ar labelu gwlad y tarddiad ar lefel Ewrop.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant ar y cyfle cyntaf posibl i baratoi ar gyfer newid ar ôl 2013.

Atodiad 2

Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor

Y rheini a roddodd dystiolaeth

15 Ionawr 2009

- Delyth Davies - Menter a Busnes
- Helen Davies - Cymdeithas Cenedlaethol Defaid Cymru
- John Davies - Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- John Griffiths - Canolfan Datblygu Llaeth
- Lorraine Howells - Undeb Amaethwyr Cymru
- Nic Lampkin - Cyfarwyddwr, Canolfan Organig Cymru; Cadeirydd, Grŵp Strategaeth Organig Cymru
- Professor Terry Marsden – Prifysgol Caerdydd
- Professor Kevin Morgan – Prifysgol Caerdydd
- Katie Palmer – Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- Jenny Randerson – Aelod Cynulliad
- Rees Roberts – Hybu Cig Cymru
- Stephen Shearman – Marchnadoedd Ffermwyr Cymru
- Joyce Watson – Aelod Cynulliad
- Wyn Williams – Dunbia

5 Chwefror 2009

- Dai Davies - Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- John Davies - Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Nick Fenwick - Undeb Amaethwyr Cymru
- Lorraine Howells - Undeb Amaethwyr Cymru
- Dylan Morgan - Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

12 Mawrth 2009

- Alan Aitkin - Cyngor Sir Caerfyrddin
- Barry Davies - Cyngor Sir Caerfyrddin
- John Davis - Canolfan Bwyd Cymru
- Vince Hanley - Consortiwm Prynu Cymru – Fforwm Bwyd
- Cath John - Adventa
- Rick Longford - Rheolwr Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Fynwy
- June Scott - Cyflenwadau Iechyd Cymru
- Steve Swinglehurst - Cadog
- William Lloyd Williams – William Lloyd Williams a'i Fab
- Wyn Williams - Dunbia

6 Mai 2009

- Tony Burgess – Wyau Llwynbedw
- David Clarke – Safonau Sicrwydd Bwyd
- Ieuan Edwards – Edwards o Gonwy
- Claire George – Cyngor Sir Penfro
- Gwyn Howells – Hybu Cig Cymru
- Bethan Jones, Menter a Busnes
- David Lloyd, Grŵp Pecynnu ac Arloesi – y Ganolfan Diwydiant Bwyd
- Phil Morgan – Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Hilary Neathey – Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Hannah Pitt – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

20 Mai 2009

- Michael Ash-Edwards – Y Co-operative
- Justin Baird Murray – Cynghrair Twristiaeth Cymru
- David Chapman – Cynghrair Twristiaeth Cymru
- Gary Chappell – Y Co-operative
- Steve Garrett – Cymdeithas Marchnad Gymunedol Glan yr Afon
- Mark Grant – Tesco
- John Glasby – Bluestone Leisure Ltd
- Felix Gummer – Tesco
- Allison Lloyd – Asda
- Simon Michaels – Local Food Shop a f3
- Maia Riley – Grŵp SPAR y DU
- Stephen Shearman – Marchnadoedd Ffermwyr Cymru
- John White – Asda

15 Mehefin 2009

- Edward Morgan – Castell Howell
- Jeremy Percy – Cydffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru

17 Mehefin 2009

- Elin Jones – Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Wynfford James – Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Rory O'Sullivan – Llywodraeth Cynulliad Cymru

Atodiad 3

Rhestr o'r papurau a ddarparwyd i'r Pwyllgor fel sail i'r dystiolaeth lafar

Dyddiad	Enw'r papur	Cyfeirnod y papur
5 Chwefror 2009	Tystiolaeth gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	RDC(3)-03-09 : Papur 1
12 Mawrth 2009	Tystiolaeth gan Gyngor Sir Fynwy (Saesneg yn unig)	RDC(3)-04-09 : Papur 1
	Tystiolaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin (Saesneg yn unig)	RDC(3)-04-09 : Papur 2
	Tystiolaeth gan Gyflenwadau Iechyd Cymru (Saesneg yn unig)	RDC(3)-04-09 : Papur 3
	Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Weithgareddau Monitro ac Ymchwil Bwyd-Amaeth (Saesneg yn unig)	RDC(3)-04-09 : Papur 4
6 Mai 2009	Tystiolaeth gan Gyngor Sir Penfro (Saesneg yn unig)	RDC(3)-06-09 : Papur 1
	Ymateb gan Hybu Cig Cymru (Saesneg yn unig)	RDC(3)-06-09 : Papur 2
	Ymateb gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Saesneg yn unig)	RDC(3)-06-09 : Papur 3
	Ymateb gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Saesneg yn unig)	RDC(3)-06-09 : Papur 4
	Ymateb gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Saesneg yn unig)	RDC(3)-06-09 : Papur 4, Atodiad 1
	Tystiolaeth gan Safonau Sicrwydd Bwyd (Saesneg yn unig)	RDC(3)-06-09 : Papur 5
	Ymateb gan Wyau Llwynbedw (Saesneg yn unig)	RDC(3)-06-09 : Papur 6
20 Mai 2009	Tystiolaeth gan Gynghrair Twristiaeth Cymru (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 1
	Tystiolaeth gan y Co-operative (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 2
	Tystiolaeth gan y Co-operative (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 2, Atodiad 1

	Tystiolaeth gan y Co-operative (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 2, Atodiad 2
	Tystiolaeth gan y Co-operative (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 2, Atodiad 3
	Tystiolaeth gan y Co-operative (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 2, Atodiad 4
	Tystiolaeth gan y Co-operative (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 2, Atodiad 5
	Tystiolaeth gan y Co-operative (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 2, Atodiad 6
	Tystiolaeth gan Tesco (Saesneg yn unig)	RDC(3)-07-09 : Papur 3
	Tystiolaeth gan Tesco (Saesneg yn unig).	RDC(3)-07-09 : Papur 3, Atodiad 1
15 Mehefin 2009	Tystiolaeth i'r ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig gan Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru (Saesneg yn unig)	RDC(3)-09-09 : Papur 1
17 Mehefin 2009	Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar gyfer Ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i Gynhyrchu a Hyrwyddo Bwyd o Gymru	RDC(3)-10-09 : Papur 1

Atodiad 4

Rhestr o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig

Ymatebodd y sefydliadau a ganlyn i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig

Sefydliad	**Cyfeirnod y Pwyllgor**
Cwmni Halen Môn	RDC(3) FD – P1
ADAS UK	RDC(3) FD – P2
Uned Adfywio Gwledig	RDC(3) FD – P3
Hybu Cig Cymru	RDC(3) FD – P4
Cyngor Sir Caerfyrddin	RDC(3) FD – P5
Cyngor Sir Fynwy	RDC(3) FD – P6
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru	RDC(3) FD – P7
Sefydliad Siartredig Marchnata	RDC(3) FD – P8
Menter a Busnes	RDC(3) FD – P9
Coleg Menai	RDC(3) FD – P10
Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru Cyf	RDC(3) FD – P11
Ffermwyr y Dyfodol Cymru	RDC(3) FD – P12
First Milk Limited	RDC(3) FD – P13
Undeb Amaethwyr Cymru	RDC(3) FD – P14
Lletygarwch, Busnes a Thwristiaeth Coleg Llandrillo	RDC(3) FD – P15
Ysgol Rheolaeth a Busnes, Prifysgol Aberystwyth	RDC(3) FD – P16
Canolfan Organig Cymru, Prifysgol Aberystwyth	RDC(3) FD – P17
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	RDC(3) FD – P18
Cyngor Sir Powys	RDC(3) FD – P19
Merched y Wawr	RDC(3) FD – P20